Cyllid & Tollau EM

# Cael eich ffurflen gais am gredydau treth yn gywir

## Defnyddiwch y Nodiadau hyn i'ch helpu

TC600 Nodiadau – i'w defnyddio o 6 Ebrill 2012

**Rhaid i chi wneud cais fel cwpl** os ydych yn briod, neu yn rhan o bartneriaeth sifil.

Os ydych wedi gwahanu yn gyfreithiol neu mae eich gwahaniad yn debygol o fod yn barhaol, dylech hawlio fel unigolyn. Er enghraifft, os ydych yn y broses o gael ysgariad.

Rhaid i chi hefyd wneud cais fel cwpl os ydych yn byw gyda rhywun fel petaech yn briod, neu yn rhan o bartneriaeth sifil. Dylech wneud cais ar y cyd fel cwpl o hyd, hyd yn oed os ydych yn byw ar wahân dros dro. Er enghraifft, os yw un ohonoch yn gweithio oddi cartref.

Os nad oes gennych bartner, dylech wneud cais fel unigolyn yn seiliedig ar eich amgylchiadau unigol.

Os ydych yn hawlio fel rhan o gwpl, mae angen i chi benderfynu ar y cychwyn manylion pwy sy'n mynd i'r golofn 'CHI' a phwy sy'n mynd i'r golofn 'EICH PARTNER'. Nid oes gwahaniaeth pwy sy'n mynd i ba golofn cyhyd â'ch bod yn cadw at yr un golofn drwy gydol y ffurflen.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â hawlio fel cwpl ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits**

**Os nad ydych yn siŵr beth i'w roi** gadewch y blwch yn wag am y tro.

Gwnewch nodyn o rif y blwch ac ewch ymlaen i'r blwch nesaf. Pan fyddwch wedi gwneud cymaint ag y gallwch, gallwch ein ffonio i gael help i lenwi'r blychau rydych wedi'u gadael yn wag.

Rydym yn anelu cysylltu â chi ynglŷn â'ch cais o fewn **tair wythnos** o'i dderbyn. Os oes unrhyw newid yn eich amgylchiadau ar ôl anfon eich cais atom, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt.

Os na fyddwch wedi clywed oddi wrthym o fewn **un mis** o anfon eich cais, dylech ein ffonio i wirio bod eich cais gennym.

**Ôl-ddyddio eich cais**

Fel arfer gallwn ôl-ddyddio eich credydau treth hyd at **un mis** yn unig o'r dyddiad y byddwn yn derbyn eich cais. Felly, i osgoi colli arian sicrhewch eich bod yn hawlio ar unwaith.

Bydd angen i chi wneud cais am ôl-ddyddio:
- os ydych yn hawlio Credyd Treth Gwaith yn unig (nid ydych yn hawlio ar gyfer unrhyw blant), neu
- os ydych wedi bod yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn.

I wneud cais am ôl-ddyddio, atodwch ddalen arall o bapur i'ch ffurflen gais yn nodi:
- eich enw, eich cyfeiriad a'ch rhif Yswiriant Gwladol, ac
- y dyddiad y gwnaethoch ddechrau gweithio, neu
- y dyddiad y dechreuodd y Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu'r Credyd Pensiwn.

Os oes gennych hawl i'r elfen anabledd a dyfarnwyd budd-dal salwch neu anabledd cymwys i chi (er enghraifft, Lwfans Byw i'r Anabl) gallai fod hawl gennych i fwy nag un mis o ôl-ddyddio. Os credwch fod hyn yn berthnasol i chi, nodwch mewn llythyr o ba ddyddiad y cafodd y budd-dal ei ddyfarnu.

Rhaid i chi ddweud wrthym o fewn **un mis** o gael eich hysbysu o'r penderfyniad ynglŷn â'r budd-dal salwch neu anabledd cymwys.

Rydym yn cynnig nifer o wasanaethau i bobl ag anableddau, gan gynnwys canllawiau mewn Braille, ar ffurf sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni ar gael mewn print bras hefyd. Ffoniwch unrhyw un o'n Llinellau Cymorth os oes angen y gwasanaethau hyn arnoch.

# Tudalen 1 o'ch ffurflen gais

## Help

Os oes angen unrhyw help arnoch, ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth Cymraeg.
Ffôn **0300 200 1900**

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5.00pm.

Gwasanaeth Saesneg **0845 300 3900**

Ffôn testun **0845 300 3909**.

I gael oriau agor y gwasanaeth Saesneg ewch i **www.hmrc.gov.uk** neu gallwch ein ffonio

**1.1 Cyfenw**
Fel mae'n ymddangos ar ddogfennau swyddogol megis pasbort, tystysgrif geni, tystysgrif priodas. Os yw eich cyfenw yn rhy hir i'w roi fan hyn, parhewch o dan y blychau.

**1.2 Enw(au) cyntaf**
Os oes gennych lawer o enwau cyntaf, nodwch y rhai y mae lle iddynt yn unig.

**1.4 Dyddiad geni**
Fel mae'n ymddangos ar ddogfennau swyddogol megis tystysgrif geni, pasbort. Cofiwch ysgrifennu'r dyddiad fel hyn:
30 09 1970


Cyllid & Thollau EM

Cais am gredydau treth 2012

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2012 i 5 Ebrill 2013

**Defnyddiwch y ffurflen hon rhwng *6* Ebrill 2012 a *5* Ebrill 2013, i wneud cais am gredydau treth.**

Defnyddiwch y Nodiadau, *Cael eich ffurflen gais am gredydau treth yn gywir* i'ch helpu. Os oes angen mwy o gymorth arnoch, ffoniwch y Llinell Gymorth ar **0300 200 1900** (neu ffôn testun **0845 300 3909**) rhwng 08:30 a 17:00.
Am wasanaeth Saesneg ffoniwch **0845 300 3900**.
Mae'n rhaid i **gyplau** wneud cais am gredydau treth ar y cyd. Rydych yn rhan o gwpl os ydych:
- yn briod, neu
- mewn partneriaeth sifil, neu
- yn byw gyda rhywun fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Ceir rhai eithriadau i hyn, gweler y tu mewn i glawr y Nodiadau.

Penderfynwch ar fanylion pa un ohonoch sy'n mynd i'r golofn 'CHI' a phwy yn y golofn 'EICH PARTNER' – cadwch at hyn drwy'r ffurflen.

Mae gwybodaeth ynglŷn ag ôl-ddyddio eich [illegible] tu mewn i glawr y Nodiadau.

**Llenwi'r ffurflen hon**
Caiff y ffurflen hon ei darllen gan beiriant. Felly mae'n bwysig eich bod yn:
- ysgrifennu mewn **priflythrennau** gan ddefnyddio inc **du**
- ysgrifennu'n daclus **y tu mewn** i'r blychau gan ddefnyddio un blwch i bob llythyren neu rif

- **gadael blwch yn wag os nad yw'n berthnasol i chi.** Peidiwch ag ysgrifennu 'Amherthnasol' na rhoi llinell drwy flychau nad ydynt yn berthnasol.

Os gwnewch gamgymeriad, rhowch linell drwy'ch cofnod ac ysgrifennwch yr wybodaeth gywir o dan y blychau.

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon sicrhewch eich bod wedi llofnodi a dyddio'r Datganiad ar dudalen 11, yna dychwelwch hi **heb ei phlygu**, yn yr amlen a ddarperir.

RHAN 1 MANYLION PERSONOL

CHI

1.1 Teitl, rhowch MR, MRS, MISS, MS, neu deitl arall

Cyfenw SRINIVASARAGHVAN

1.2 Enw(au) cyntaf

1.3 Cyfeiriad
Cod post

Rhif y tŷ

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat

1.4 Dyddiad geni 30 09 1970

1.5 Rhif Yswiriant Gwladol. Gweler y Nodiadau, tudalen 1

EICH PARTNER

1.1 Teitl, rhowch MR, MRS, MISS, MS, neu deitl arall

Cyfenw

1.2 Enw(au) cyntaf

1.3 Cyfeiriad – gadewch yn wag os yw'r cyfeiriad yr un peth
Cod post

Rhif y tŷ

Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu rif y fflat

1.4 Dyddiad geni D D M M B B B B

1.5 Rhif Yswiriant Gwladol. Gweler y Nodiadau, tudalen 1

Rhaid i chi ateb unrhyw gwestiynau sy'n gofyn am ateb tebyg i 'Ydw' neu 'Nac ydw'. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd oedi wrth ymdrin â'ch cais.

Os bydd blwch sy'n gofyn am wybodaeth nad yw'n berthnasol i chi, gadewch ef yn wag.

Os byddwch yn gwneud camgymeriad, rhowch linell drwyddo a rhoi'r ateb cywir oddi tano.

1 4 2 9 1 9 ~~7 5 3 5~~
7 9 7 5

**1.5 Rhif Yswiriant Gwladol**
Bydd y rhif hwn ar:
- eich tystysgrif P60 gan eich cyflogwr
- eich Hysbysiad Cod TWE neu ar lythyr a anfonwyd gennym ni
- eich slipiau cyflog o'r gwaith
- unrhyw lythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, neu'r Ganolfan Byd Gwaith.

Os na allwch roi rhif Yswiriant Gwladol, mae'n bosib y gallai achosi oedi cyn delio â'ch cais.

*Enghraifft o rif Yswiriant Gwladol*

Rhif Yswiriant Gwladol
**XX 99 99 99 X**

**Cyplau – nodwch eich manylion chi a manylion eich partner ar wahân yn y blychau a ddarperir.**

# Tudalen 2 o'ch ffurflen gais

**1.6 Rhif ffôn**
Nodwch rifau ffôn y gallwn eu defnyddio i gysylltu â chi yn hawdd. Bydd hyn yn ein galluogi i gysylltu â chi'n gyflym os oes gennym unrhyw ymholiadau am eich cais.

**1.9 A ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer**
Mae'r cwestiwn hwn am y wlad rydych yn byw ynddi y rhan fwyaf o'r amser. Y Deyrnas Unedig yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw'n cynnwys Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel.

Fel arfer nid oes gwahaniaeth p'un a ydych yn mynd i wledydd eraill ar eich gwyliau neu ar gyfer gwaith o bryd i'w gilydd.

**1.12 Cyfradd Uchaf Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl neu Gyfradd Uchaf Lwfans Gweini**
Os ydych chi (neu eich partner) yn derbyn un o'r budd-daliadau hyn, ac rydych yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith, gallwch gael elfen anabledd difrifol y credydau treth.

Os ydych wedi hawlio un o'r budd-daliadau hyn, ond rydych yn aros i glywed a fyddwch yn ei gael, gadewch y blwch hwn yn wag. Unwaith y byddwch yn gwybod bod y budd-dal yn mynd i gael ei dalu i chi, rhowch wybod i ni ar ba ddyddiad y bydd yn dechrau.

Os ydych yn cael un o'r budd-daliadau hyn ar ran plentyn, gadewch y blwch hwn yn wag. Gofynnir i chi am hyn yn Rhan 2.

**1.13 Os ydych chi neu eich partner yn analluog, yn yr ysbyty neu'r carchar**
Darllenwch y nodiadau ar dudalen 6 cyn i chi ateb y cwestiwn hwn.



RHAN 1 MANYLION PERSONOL parhad

CHI

1.6 **Nodwch rif ffôn,** efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi
Rhif ffôn yn ystod y dydd yn llawn

Rhif gyda'r hwyr yn llawn - os yw'n wahanol

1.7 **Gwryw neu fenyw?** Rhowch 'X' mewn un blwch
Gwryw Benyw

1.8 **A fuoch o dan reolaeth fewnfudo yn y tri mis diwethaf?** Gweler y Nodiadau, tudalen 2
Do Naddo

1.9 **A ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer?** Gweler y Nodiadau, tudalen 2
Ydw Nac ydw
Os 'Nac ydw', rhowch enw'r wlad lle rydych yn byw fel arfer yn y blwch isod

1.10 **Rhowch unrhyw enwau eraill rydych yn eu defnyddio neu wedi'u defnyddio, wrth gysylltu ag adrannau'r llywodraeth.** Er enghraifft, eich enw cyn priodi neu'ch enw priodasol blaenorol

EICH PARTNER

1.6 **Nodwch rif ffôn,** efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi
Rhif ffôn yn ystod y dydd yn llawn

Rhif gyda'r hwyr yn llawn - os yw'n wahanol

1.7 **Gwryw neu fenyw?** Rhowch 'X' mewn un blwch
Gwryw Benyw

1.8 **A fuoch o dan reolaeth fewnfudo yn y tri mis diwethaf?** Gweler y Nodiadau, tudalen 2
Do Naddo

1.9 **A ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer?** Gweler y Nodiadau, tudalen 2
Ydw Nac ydw
Os 'Nac ydw', rhowch enw'r wlad lle rydych yn byw fel arfer yn y blwch isod

1.10 **Rhowch unrhyw enwau eraill rydych yn eu defnyddio neu wedi'u defnyddio, wrth gysylltu ag adrannau'r llywodraeth.** Er enghraifft, eich enw cyn priodi neu'ch enw priodasol blaenorol

**Anabledd**
Gweler y Nodiadau, tudalennau 2 a 19 i 21, i weld a ydych yn gymwys i gael mwy o gredydau treth oherwydd anabledd.
**Os oes gennych blentyn sy'n anabl** dywedwch wrthym yn RHAN 2.

CHI

1.11 **Os ydych chi'n gymwys i gael yr elfen anabledd rhowch 'X' yn y blwch.** Gweler y Nodiadau, tudalen 2

1.12 **Os ydych yn derbyn, i chi eich hun,** Cyfradd Uchaf Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl neu Gyfradd Uwch Lwfans Gweini, rhowch 'X' yn y blwch

EICH PARTNER

1.11 **Os ydych chi'n gymwys i gael yr elfen anabledd rhowch 'X' yn y blwch.** Gweler y Nodiadau, tudalen 2

1.12 **Os yd... i chi eich hun,** Cyfradd Uchaf Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl... Lwfans Gweini, rhowch 'X' yn y blwch

CYPLAU
Mae'r cwestiwn hwn ar gyfer **cyplau** â phlant yn unig.
1.13 **A oes un ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy ac mae'r person arall yn analluog neu yn yr ysbyty neu'r carchar?** I ddangos pwy sy'n analluog, yn yr ysbyty, neu'r carchar, rhowch 'X' mewn un blwch yn unig. Gweler y Nodiadau, tudalen 6
Chi Eich partner

**1.8 O dan reolaeth fewnfudo**
Rydych o dan reolaeth fewnfudo:

- os yw'r Swyddfa Gartref yn dweud y gallwch aros yn y DU (a elwir yn 'ganiatâd i ddod i mewn neu aros') ond dim ond os nad ydych yn hawlio rhai budd-daliadau, credydau treth neu gymorth tai a delir gan lywodraeth y DU (a elwir yn 'gymorth gan arian cyhoeddus'), neu
- os oes angen caniatâd arnoch i aros yn y DU (a elwir yn 'ganiatâd i ddod i mewn neu aros'), ond nad ydych wedi ei gael.

Os ydych o dan reolaeth fewnfudo, neu os nad ydych yn siŵr a ydych ai peidio, efallai y gallwch gael credydau treth o hyd. Ffoniwch ein Llinell Gymorth i'n holi.

Os caniatawyd lloches i chi yn y DU yn ystod y tri mis diwethaf, rhaid i chi ateb 'Do' i'r cwestiwn hwn.

**1.11 Os oes gennych anabledd**
Efallai y cewch Gredyd Treth Gwaith ychwanegol - rydym yn galw'r swm ychwanegol hwn yn elfen anabledd. Er mwyn cael yr elfen anabledd mae'n rhaid i chi (neu'ch partner) **fodloni pob un o'r tri amod cymhwyso**.

**Amod 1** - rydych fel arfer yn gweithio 16 awr neu fwy bob wythnos.

**Amod 2** - mae gennych anabledd sy'n eich rhoi o dan anfantais o ran cael swydd.

**Amod 3** - rydych yn cael budd-dal cymwys sy'n gysylltiedig â salwch neu anabledd neu wedi'i gael yn ddiweddar.

Darllenwch y nodiadau ychwanegol ar dudalennau 19 i 21 cyn rhoi 'X' yma.

**Cyplau – nodwch eich manylion chi a manylion eich partner ar wahân yn y blychau a ddarperir.**

# Tudalen 3 o'ch ffurflen gais

Gallwch hawlio Credyd Treth Plant ar gyfer plentyn hyd at 31 Awst ar ôl ei ben-blwydd yn 16 oed. Gallwch hefyd hawlio ar gyfer plentyn rhwng 16 ac 20 oed. Mae angen iddo fod mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu ar gwrs hyfforddiant cymeradwy. Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen 4.

**2.4 Help tuag at gostau gofal plant cofrestredig a chymeradwy tra byddwch yn gweithio**

Gallwch gael help ar gyfer plentyn hyd at:

- y dydd Sadwrn yn dilyn 1 Medi ar ôl ei ben-blwydd yn 15 oed, neu
- y dydd Sadwrn yn dilyn 1 Medi ar ôl ei ben-blwydd yn 16 oed
  - os yw'r plentyn wedi'i gofrestru'n ddall, neu fod ei enw wedi cael ei dynnu oddi ar gofrestr y deillion o fewn yr 28 wythnos diwethaf, neu
  - os ydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer y plentyn hwnnw.

Cyn i chi roi 'X' yn y blwch hwn, darllenwch y nodiadau ar dudalen 4 er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys.

**2.5 Os daethoch chi, neu'ch partner, yn gyfrifol am blentyn ar ddyddiad heblaw ei ddyddiad geni.**

Os nad yw'r plentyn wedi byw gyda chi ers ei eni, gallwch gael Credyd Treth Plant dim ond:

- o'r dyddiad y dechreuodd y plentyn fyw gyda chi
- o'r dyddiad y daethoch chi fel unigolyn (neu gwpl) yn llwyr gyfrifol am y plentyn hwnnw.

Darllenwch yr wybodaeth ychwanegol ar dudalen 4.


RHAN 2 PLANT

**Rhowch fanylion plant o dan 20 oed rydych chi (neu'ch partner os oes gennych un) yn gyfrifol amdanynt.** Gweler y Nodiadau, tudalennau 3 a 4, am yr hyn a olygwn wrth y gair 'cyfrifol' a pha blant y dylech eu cynnwys.
**Os ydych yn gyfrifol am fwy na 2 blentyn**, llenwch ffurflen TC600A *Tudalennau ychwanegol* a'i dychwelyd gyda'r ffurflen gais hon.
**Os nad ydych yn gyfrifol am unrhyw blant o dan 20 oed, ewch yn syth i RHAN 4.**

PLENTYN 1

2.1 Cyfenw fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni

2.2 Enw(au) cyntaf fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni

2.3 Dyddiad geni 06 09 2001

2.4 Rhowch 'X' yn y blychau sy'n berthnasol i'r plentyn hwn

- rydych yn talu am ofal plant cofrestredig neu gymeradwy tra byddwch yn gweithio. Gweler y Nodiadau, tudalennau 3 a 4
- rydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer y plentyn hwn. Gweler y Nodiadau, tudalen 4
- rydych yn cael Cyfradd Uchaf neu Gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer y plentyn hwn. Gweler y Nodiadau, tudalen 4
- mae'r plentyn wedi ei gofrestru'n ddall (neu wedi cael ei dynnu oddi ar gofrestr y deillion yn ystod yr 28 wythnos diwethaf). Gweler y Nodiadau, tudalen 4

2.5 Os daethoch chi, neu'ch partner, yn gyfrifol am y plentyn hwn ar ddyddiad heblaw ei ddyddiad geni, nodwch y dyddiad y daethoch yn gyfrifol amdano. Gweler y Nodiadau, tudalen 4

PLANT RHWNG 16 AC 20 OED

2.6 Os yw'r plentyn hwn mewn addysg amser llawn, nad yw'n addysg uwch, neu ar gwrs hyfforddiant cymeradwy rhowch 'X' yn y blwch. Gweler y Nodiadau, tudalen 4, os yw'r plentyn hwn dros 16 oed

2.7 Os yw'r plentyn hwn wedi'i gofrestru gyda gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, y Weinyddiaeth Amddiffyn, neu sefydliad cyfatebol rhowch y dyddiad y gadawodd y plentyn addysg amser llawn. Gweler y Nodiadau, tudalen 3

PLENTYN 2

2.1 Cyfenw fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni

2.2 Enw(au) cyntaf fel y'i dangosir ar y dystysgrif geni

Dyddiad geni D D M M B B B B

2.4 Rhowch 'X' yn y blychau sy'n berthnasol i'r plentyn hwn

- rydych yn talu am ofal plant cofrestredig neu gymeradwy tra byddwch yn gweithio. Gweler y Nodiadau, tudalennau 3 a 4
- rydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer y plentyn hwn. Gweler y Nodiadau, tudalen 4
- rydych yn cael Cyfradd Uchaf Elfen Gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer y plentyn hwn. Gweler y Nodiadau, tudalen 4
- mae'r plentyn wedi ei gofrestru'n ddall (neu wedi cael ei dynnu oddi ar gofrestr y deillion yn ystod yr 28 wythnos diwethaf). Gweler y Nodiadau, tudalen 4

2.5 Os daethoch chi, neu'ch partner, yn gyfrifol am y plentyn hwn ar ddyddiad heblaw ei ddyddiad geni, nodwch y dyddiad y daethoch yn gyfrifol amdano. Gweler y Nodiadau, tudalen 4

PLANT RHWNG 16 AC 20 OED

2.6 Os yw'r plentyn hwn mewn addysg amser llawn, nad yw'n addysg uwch, neu ar gwrs hyfforddiant cymeradwy rhowch 'X' yn y blwch. Gweler y Nodiadau, tudalen 4, os yw'r plentyn hwn dros 16 oed

2.7 Os yw'r plentyn hwn wedi'i gofrestru gyda gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, y Weinyddiaeth Amddiffyn, neu sefydliad cyfatebol rhowch y dyddiad y gadawodd y plentyn addysg amser llawn. Gweler y Nodiadau, tudalen 3

**2.4** Os ydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer eich plentyn, darllenwch yr wybodaeth ychwanegol ar dudalen 4.

**2.5** Os daeth y plentyn o dramor ac mae e'n aros gyda chi at ddibenion addysgol, dylech ffonio'r llinell gymorth.

Rydych yn gyfrifol am blentyn os yw'n byw gyda chi fel arfer. Os ydych yn rhannu'r cyfrifoldeb dros blentyn gyda rhywun nad yw'n bartner i chi, penderfynwch pa un ohonoch sydd â'r prif gyfrifoldeb. Yna dylai'r person hwnnw hawlio Credyd Treth Plant ar gyfer y plentyn.

**Nid** ydych yn gyfrifol am blentyn:

- os yw'n cael credydau treth Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm iddo ef ei hun
- os yw'n derbyn gofal gan awdurdod lleol sy'n talu tuag at gostau llety neu gynhaliaeth
- os cafodd ei ddedfrydu i fwy na phedwar mis yn y ddalfa neu ganolfan gadw
- os yw'r plentyn wed gorffen addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy ac wedi dechrau gweithio am 24 awr neu fwy'r wythnos.

**2.7 Os yw'r plentyn hwn wedi'i gofrestru gyda gwasanaeth gyrfaoedd, Gwasanaeth Connexions, y Weinyddiaeth Amddiffyn neu sefydliad tebyg.**

Os yw'r plentyn:

- dan 18 oed
- wedi gadael addysg amser llawn, nad yw'n addysg uwch, neu hyfforddiant cymeradwy yn y tri mis diwethaf ac
- wedi cofrestru gyda gwasanaeth gyrfaoedd, Gwasanaeth Connexions, y Weinyddiaeth Amddiffyn neu sefydliad tebyg o fewn yr Undeb Ewropeaidd

nodwch y dyddiad y gwnaeth adael addysg amser llawn, nad oedd yn addysg uwch, neu'n hyfforddiant cymeradwy.

**Os oes gennych fwy nag un plentyn, nodwch fanylion ar gyfer pob un ar wahân yn y blychau a ddarperir.**

## 2.4 Rhowch 'X' yn y blychau sy'n berthnasol i'r plentyn hwn

***Help tuag at gostau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy tra byddwch yn gweithio***

Gallwch gael help gyda'ch costau gofal plant:

- os ydych chi a'ch partner yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy, neu os yw un ohonoch yn gweithio ac mae'r llall yn analluog, yn yr ysbyty neu yn y carchar, ac
- os ydych yn defnyddio gwasanaeth gofal plant ar hyn o bryd neu wedi gwneud trefniadau gyda darparwr i ddechrau gwneud hynny yn ystod y saith diwrnod nesaf.

***Gofal plant cofrestredig neu gymeradwy***

Gallwch gael help tuag at eich costau gofal plant os yw'r darparwr gofal plant wedi'i gofrestru neu'i gymeradwyo. Mae cyrff cofrestru a chymeradwyo yn cynnwys:

- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Ofsted yn Lloegr
- Gofal Cymdeithasol a Gwella Gwaith Cymdeithasol yn Yr Alban
- Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.

Gallwch gael help o hyd gyda'ch costau os ydych yn defnyddio math gwahanol o ofal plant, megis clwb ar ôl ysgol.

Os nad ydych yn siŵr a yw eich darparwr gofal plant wedi'i gofrestru neu yn gymeradwy, neu i weld a yw eich darparwr gofal plant yn cymhwyso, ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/wtc5-cymraeg.pdf** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth.

***Elfennau anabledd plant***

Os oes gan eich plentyn anabledd efallai y cewch Gredyd Treth Plant ychwanegol - rydym yn galw'r swm ychwanegol hwn yn elfen anabledd plant. Efallai y byddwn yn talu'r swm ychwanegol hwn:

- os telir Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer eich plentyn, neu
- os yw'r plentyn wedi'i gofrestru'n ddall, neu fod ei enw wedi cael ei dynnu oddi ar gofrestr y deillion o fewn yr 28 wythnos diwethaf.

Os telir Elfen Gofal Uchaf Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer eich plentyn, efallai y byddwn yn talu'r elfen anabledd difrifol o gredydau treth.

Gadewch y blwch hwn yn wag os ydych wedi hawlio Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plentyn ond rydych yn aros am benderfyniad yn ei gylch. Unwaith y byddwch yn gwybod bod y budd-dal yn mynd i gael ei dalu i chi, rhowch wybod i ni ar ba ddyddiad y bydd yn dechrau.

## 2.5 Y dyddiad y daethoch yn gyfrifol am y plentyn

Nodwch y dyddiad y dechreuodd y plentyn fyw gyda chi. Efallai y bydd angen i chi nodi dyddiad sy'n hwyrach na dyddiad geni'r plentyn:

- os ydych yn gwpl ond dim ond un ohonoch oedd yn gyfrifol am y plentyn o'r blaen. Nodwch y dyddiad y dechreuodd y plentyn fyw gyda'r ddau ohonoch.
- os ydych yn maethu neu'n mabwysiadu plentyn. Nodwch y dyddiad y dechreuodd y plentyn fyw gyda chi. Os yw'r awdurdod lleol (yr Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon) yn gwneud taliadau i chi ar gyfer y plentyn, ffoniwch ein Llinell Gymorth.
- os ydych yn hawlio credydau treth fel person sengl, ar ôl bod yn rhan o gwpl.
- os oedd y plentyn yn byw gyda rhywun arall ond mae wedi dod i fyw gyda chi bellach.

## 2.6 Pobl ifanc rhwng 16 ac 20 oed

***Addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch***

Ar yr amod ei fod wedi dechrau, derbyn neu gofrestru ar ei gwrs cyn ei ben-blwydd yn 19 oed, mae addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch yn golygu bod y person ifanc:

- yn yr ysgol neu'r coleg (nid y brifysgol)
- yn astudio pynciau hyd at ac yn cynnwys Lefel A, lefel 3 NVQ, Cymwysterau Uwch yr Alban neu Uwch Dystysgrif Ychwanegol (advanced Highers) (nid HNC na gradd)
- mewn gwersi am fwy na 12 awr yr wythnos yn ystod y tymor.

Ystyrir bod person ifanc yn dal mewn addysg amser llawn, nad yw'n addysg uwch neu'n hyfforddiant cymeradwy os yw'n paratoi ar gyfer arholiadau, yn absennol oherwydd salwch ond yn dod nôl pan fydd yn well, neu newydd orffen cwrs ac wedi cofrestru i ddechrau cwrs arall y tymor nesaf. Os nad ydych yn siŵr os yw eich plentyn mewn addysg amser llawn, nad yw'n addysg uwch neu'n cael hyfforddiant cymeradwy, ffoniwch y llinell gymorth.

***Cyrsiau hyfforddi cymeradwy***

Yng Nghymru - Hyfforddeiaethau, Prentisiaethau Sylfaenol, Adeiladu Sgiliau neu Adeiladu Sgiliau+.

Yn Lloegr - Foundation Learning Programmes, Access to Apprenticeships neu Programme Led Apprenticeships

Yn yr Alban - Get Ready for Work neu Skillseekers.

Yng Ngogledd Iwerddon - Jobskills neu Training for Success: Professional and Technical Training, neu Programme Led Apprenticeships (Apprenticeships NI).

Nid yw cwrs a ddarperir gan gyflogwr fel rhan o gytundeb swydd yn cyfrif fel un cymeradwy. Er enghraifft, darperir Prentisiaethau Modern yn yr Alban fel rhan o gytundeb swydd bob amser, felly nid yw'n cyfrif fel hyfforddiant cymeradwy.

# Tudalen 4 o'ch ffurflen gais

Gallwch gael hyd at 70% o'r costau gofal plant rydych yn eu talu. Yr uchafswm y gallwch ei gael yw £122.50 yr wythnos am un plentyn neu £210 yr wythnos am ddau blentyn neu fwy. Darllenwch y nodiadau ar dudalennau 3, 4 a 6 er mwyn sicrhau eich bod yn cymhwyso.

**3.1 Enw'r darparwr gofal plant**
Os yw perthynas yn darparu eich gofal plant, efallai na fyddwch yn cymhwyso, darllenwch y nodiadau ychwanegol ar dudalen 6.

**3.4 Corff cofrestru neu gymeradwyo'r darparwr gofal plant**
Gofynnwch i'ch darparwr gofal plant pa awdurdod sydd wedi ei gymeradwyo neu ei gofrestru. Mae cyrff cofrestru a chymeradwyo yn cynnwys:

- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Ofsted yn Lloegr
- Y Comisiwn dros Reoleiddio Gofal yn yr Alban
- Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.



RHAN 2 PLANT parhad

CHI

2.8 **Rhif cyfeirnod Budd-dal Plant**
Os ydych yn cael Budd-dal Plant, rhowch y cyfeirnod isod. Bydd ar unrhyw lythyrau ynglŷn â Budd-dal Plant rydych wedi'u derbyn. Os na wyddoch y cyfeirnod yna gadewch y blwch yn wag.
C H B

EICH PARTNER

2.8 **Rhif cyfeirnod Budd-dal Plant**
Os ydych yn cael Budd-dal Plant, rhowch y cyfeirnod isod. Bydd ar unrhyw lythyrau ynglŷn â Budd-dal Plant rydych wedi'u derbyn. Os na wyddoch y cyfeirnod yna gadewch y blwch yn wag.
C H B

RHAN 3 COSTAU GOFAL PLANT – CYMORTH I RIENI SY'N GWEITHIO

**A ydych yn talu costau gofal plant?** Os felly, efallai y cewch gymorth ychwanegol i'w talu drwy gredydau treth. Cyn i chi gwblhau'r RHAN hon, darllenwch y Nodiadau, tudalennau 5 a 6, i weld a yw eich costau gofal plant yn gymwys.
Gallwch gael cymorth gyda chostau gofal plant os yw eich plentyn yn 15 oed neu iau (ond gweler y Nodiadau, tudalen 3, blwch 2.4) a'ch bod yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy. **Cyplau** - gallwch hawlio cymorth gyda chostau gofal plant fel cwpl, os yw'r ddau ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy, neu os yw un partner yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy **ac** mae'r partner arall yn analluog, yn yr ysbyty, neu yn y carchar.
Atebwch gwestiynau 3.1 i 3.7. **Os ydych yn defnyddio mwy nag un darparwr gofal plant**, llenwch ffurflen TC600A *Tudalennau ychwanegol* a'i dychwelyd gyda'r ffurflen gais hon.

DARPARWR GOFAL PLANT

3.1 **Enw'r darparwr gofal plant**. Gweler y Nodiadau, tudalen 5

3.2 **Eu cyfeiriad**
Cod post
Rhif y tŷ neu'r adeilad
Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r tŷ neu'r adeilad

3.3 **Eu rhif ffôn** – yn llawn

3.4 **Rhowch enw'r awdurdod lleol neu gorff arall (er enghraifft, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol) sydd wedi cofrestru neu wedi cymeradwyo'ch darparwr gofal plant.**
Gweler y Nodiadau, tudalen 5

3.5 **Rhif cofrestru neu gymeradwyo'r darparwr.**
Gweler y Nodiadau, tudalen 5

3.6 **Sawl un o'r plant a enwyd yn y cais hwn sy'n derbyn gofal gan y darparwr hwn?**
Plentyn

3.7 **Cyfrifwch y swm wythnosol rydych yn ei dalu i'r darparwr gofal plant hwn ar gyfartaledd gan ddefnyddio'r Nodiadau, tudalen 6.** Os ydych wedi trefnu i ddechrau defnyddio'r gofal plant o fewn y 7 diwrnod nesaf gweler y Nodiadau, tudalen 6
£ . 0 0

**3.5 Rhif cofrestru neu gymeradwyo'r darparwr gofal plant**
Gofynnwch am gael gweld llythyr neu dystysgrif eich darparwr gofal plant er mwyn sicrhau bod eu cofrestriad neu gymeradwyaeth yn gyfoes. Gofynnwch iddynt am eu rhif cofrestru neu rif cymeradwyo.

**3.7 Rhowch y swm wythnosol rydych yn ei dalu ar gyfartaledd i'r darparwr gofal plant hwn**
Darllenwch y nodiadau ar dudalen 6.

## Help

Os oes angen unrhyw help arnoch, ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth Cymraeg. Ffôn **0300 200 1900**

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5.00pm.

Gwasanaeth Saesneg **0845 300 3900**

Ffôn testun **0845 300 3909**.

I weld oriau agor y gwasanaeth Saesneg ewch i **www.hmrc.gov.uk/contactus**

**Cyplau – nodwch eich manylion chi a manylion eich partner ar wahân yn y blychau a ddarperir.**

**3.1 Os yw eich plentyn yn derbyn gofal gan berthynas**

Ni fyddwch fel arfer yn derbyn cymorth ar gyfer costau gofal plant os yw eich plentyn yn derbyn gofal gan:

- rhiant neu lysriant
- mam-gu/tad-cu neu nain/taid
- modryb neu ewythr
- brawd neu chwaer.

Ffoniwch y llinell gymorth os yw eich plentyn yn derbyn gofal gan berthynas ac mae'r perthynas hwnnw wedi ei gofrestru neu ei gymeradwyo fel darparwr gofal plant.

**3.7 Nodwch y swm wythnosol ar gyfartaledd a dalwch i'r darparwr gofal plant hwn**

**Peidiwch â chynnwys unrhyw swm:**

- a delir gan eich cyflogwr, mewn arian neu dalebau, tuag at eich costau gofal plant
- a gewch ar ffurf talebau gofal plant drwy aberth cyflog
- a delir gan awdurdod lleol neu awdurdod addysg lleol tuag at gostau gofal plant ar gyfer plant tair neu bedair blwydd oed.
- a delir gan gynllun y llywodraeth, er enghraifft, Cronfa Gofal Plant 'Upfront' i'ch helpu i ddechrau gweithio.

Os ydych yn talu costau gofal plant yn wythnosol ac yn talu'r un swm bob wythnos, nodwch y swm hwnnw.

Os ydych yn talu costau gofal plant yn wythnosol ond yn talu symiau gwahanol, dylech ychwanegu'r holl symiau wythnosol at ei gilydd a dalwyd gennych yn y 52 wythnos diwethaf a rhannu'r cyfanswm gyda 52.

**Dylech bob amser dalgrynnu eich costau cyfartalog i fyny i'r bunt agosaf.**

**Enghraifft – rydych yn talu'n wythnosol am ofal plant ac yn talu symiau gwahanol bob wythnos**

Fel arfer mae Aled yn talu £60 yr wythnos am ofal plant cofrestredig yn ystod y tymor. Yn ystod gwyliau'r ysgol mae'n talu £100 yr wythnos am 10 wythnos.

Cyfanswm ei gostau am 52 wythnos yw (£100 x 10) + (£60 x 39 wythnos) = £3,340.

Felly cyfartaledd ei gostau wythnosol yw £3,340 wedi'i rhannu gyda 52 = £64.23 (wedi'i dalgrynnu i fyny i £65.)

**Sylwer:** Dylech gynnwys costau ar gyfer wythnosau y talwch amdanynt mewn gwirionedd.

***Os oes angen help arnoch i gyfrifo eich costau gofal plant wythnosol ar gyfartaledd***

Dylech fynd i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/wtc5-cymraeg.pdf** neu gallwch ein ffonio.

***Os oes angen i chi ddefnyddio gofal plant am gyfnod byr yn unig***

Os ydych yn defnyddio gofal plant am gyfnod byr, penodedig yn unig, er enghraifft yn ystod gwyliau'r ysgol, efallai y byddwch yn medru hawlio a derbyn cymorth gyda'ch costau gofal plant am y cyfnod hwnnw. Pan ddwedwn 'penodedig' rydym yn golygu eich bod yn gwybod pryd y bydd y cyfnod hwnnw o ofal plant yn cychwyn ac yn gorffen. I hawlio cymorth gyda'ch costau gofal plant am gyfnod byr, penodedig, ffoniwch ein llinell gymorth cyn gynted ag y mae'r gofal plant yn cychwyn, neu ddim mwy na saith diwrnod o flaen llaw. Bydd angen i chi ddweud wrthym:

- dyddiad cychwyn a dyddiad gorffen y gofal plant
- gwir gost y gofal plant
- manylion y sawl sy'n darparu'r gofal plant.

**Os ydych chi neu'ch partner yn analluog, yn yr ysbyty neu yn y carchar**

Pan ddywedwn analluog rydym yn golygu eich bod ar hyn o bryd, yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol:

- Lwfans Byw i'r Anabl
- Lwfans Gweini
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Budd-dal Analluogrwydd ar y gyfradd uwch byr dymor neu'r gyfradd hir dymor
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) sy'n seiliedig ar gyfraniadau am 28 wythnos neu fwy, neu Dâl Salwch Statudol wedi'i ddilyn gan ESA yn seiliedig ar gyfraniadau am 28 wythnos neu fwy
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfarnwyd ar sail gallu gyfyngedig i weithio o ganlyniad i ddisbyddu 12 mis o hawliad i ESA ar sail cyfraniadau
- Budd-dal Anafiadau Diwydiannol gyda Lwfans Gweini Cyson
- Lwfans Anabledd Rhyfel gyda Lwfans Gweini Cyson neu Atodiad Symudedd
- Budd-dal Treth Cyngor neu Fudd-dal Tai gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr
- Cerbyd o dan y Cynllun Cerbydau i'r Anabl.

# Tudalen 5 o'ch ffurflen gais

**4.1 A ydych yn gwneud gwaith â thâl ar hyn o bryd?**
Atebwch 'Ydw' yma os ydych chi neu eich partner yn:

- gwneud gwaith y cewch eich talu amdano, yn cynnwys gwaith fel person hunangyflogedig
- dechrau gwaith â thâl yn ystod y saith diwrnod nesaf.

Atebwch 'Ydw' hefyd os ydych chi neu eich partner yn absennol o'r gwaith, yn cynnwys:

- absenoldeb oherwydd salwch o 28 wythnos neu lai
- absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu o 39 wythnos neu lai
- absenoldeb tadolaeth cyffredin o bythefnos neu lai
- absenoldeb tadolaeth ychwanegol a gymerir yn ystod cyfnod tâl mamolaeth y fam.



RHAN 4 MANYLION GWAITH

**Mae'r RHAN hon yn ymwneud â gwaith y cewch eich talu ar ei gyfer, gan gynnwys gwaith fel person hunangyflogedig.** Mae'r nifer isaf o oriau sy'n rhaid i chi weithio er mwyn cymhwyso ar gyfer Credyd Treth Gwaith yn dibynnu ar eich amgylchiadau. I gael mwy o wybodaeth gweler y Nodiadau, tudalennau 7 i 10.

CHI

4.1 **A ydych mewn gwaith cyflogedig ar hyn o bryd?** Gweler y Nodiadau, tudalen 7. Os ydych yn dechrau gwaith cyflogedig o fewn y 7 diwrnod nesaf rhowch 'X' yn y blwch 'Ydw'

Ydw

4.2 **A ydych yn gweithio yn y Deyrnas Unedig fel arfer?** Gweler y Nodiadau, tudalen 7

Ydw Nac ydw

Os 'Nac ydw', rhowch enw'r wlad lle'r ydych yn gweithio fel arfer

4.3 **Faint o oriau yr wythnos y byddwch yn eu gweithio fel arfer?** Os yw eich oriau yn amrywio o wythnos i wythnos, neu os ydych yn gwneud gwaith tymhorol, gweler y Nodiadau, tudalennau 7 i 9

o oriau

4.4 **Os ydych wedi rhoi'r gorau i hawlio neu os byddwch yn rhoi'r gorau i hawlio:**

- Cymhorthdal Incwm, neu
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, neu
- Credyd Pensiwn

**oherwydd** eich bod wedi dechrau gweithio, neu wedi newid eich oriau fel nad ydych bellach yn gymwys i gael y budd-daliadau hyn, yn y 3 mis diwethaf, neu byddwch yn dechrau gweithio yn y 7 diwrnod nesaf, rhowch y dyddiad y gwnaethoch ddechrau gweithio, y newidiodd eich oriau neu y byddwch yn dechrau gweithio

D D M M B B B B

**Nesaf** llenwch flwch 4.5 a:

- **os ydych yn gyflogai,** llenwch flychau 4.6 i 4.10
- **os ydych yn berson hunangyflogedig** llenwch flychau 4.11 a 4.12
- **os yw'r ddau'n berthnasol,** llenwch flychau 4.6 i 4.12 ar y dudalen nesaf.

EICH PARTNER

4.1 **A ydych mewn gwaith cyflogedig ar hyn o bryd?** Gweler y Nodiadau, tudalen 7. Os ydych yn dechrau gwaith cyflogedig o fewn y 7 diwrnod nesaf rhowch 'X' yn y blwch 'Ydw'

Ydw Nac ydw - **ewch yn syth i RHAN 5**

4.2 **A ydych yn gweithio yn y Deyrnas Unedig fel arfer?** Gweler y Nodiadau, tudalen 7

Ydw Nac ydw

Os 'Nac ydw', rhowch enw'r wlad lle'r ydych yn gweithio fel arfer

4.3 **Faint o oriau yr wythnos y byddwch yn eu gweithio fel arfer?** Os yw eich oriau yn amrywio o wythnos i wythnos, neu os ydych yn gwneud gwaith tymhorol, gweler y Nodiadau, tudalennau 7 i 9

o oriau

4.4 **Os ydych wedi rhoi'r gorau i hawlio neu os byddwch yn rhoi'r gorau i hawlio:**

- Cymhorthdal Incwm, neu
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, neu
- Credyd Pensiwn

**oherwydd** eich bod wedi dechrau gweithio, neu wedi newid eich oriau fel nad ydych bellach yn gymwys i gael y budd-daliadau hyn, yn y 3 mis diwethaf, neu byddwch yn dechrau gweithio yn y 7 diwrnod nesaf, rhowch y dyddiad y gwnaethoch ddechrau gweithio, y newidiodd eich oriau neu y byddwch yn dechrau gweithio

D D M M B B B B

**Nesaf** llenwch flwch 4.5 a:

- **os ydych yn gyflogai,** llenwch flychau 4.6 i 4.10
- **os ydych yn berson hunangyflogedig** llenwch flychau 4.11 a 4.12
- **os yw'r ddau'n berthnasol,** llenwch flychau 4.6 i 4.12 ar y dudalen nesaf.

**4.2 A ydych yn gweithio yn y Deyrnas Unedig fel arfer?**
Mae'r cwestiwn hwn am y wlad lle'r ydych yn gweithio ynddi y rhan fwyaf o'r amser. Nid oes gwahaniaeth p'un a ydych yn mynd i wledydd eraill i weithio o bryd i'w gilydd.

Y Deyrnas Unedig yw Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nid yw'n cynnwys Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel.

**4.3 Faint o oriau yr wythnos rydych yn eu gweithio fel arfer?**
Darllenwch y nodiadau ar dudalen 8 a 9 cyn i chi ateb y cwestiwn hwn. Nid oes gwahaniaeth os nad ydych yn y gwaith ar hyn o bryd – eich oriau arferol sydd eu hangen arnom.

**Cyplau – nodwch eich manylion chi a manylion eich partner ar wahân yn y blychau a ddarperir.**

***Pa oriau sydd angen i chi weithio***

***Os nad ydych yn gyfrifol am blant:***

- Os ydych yn 25 oed neu'n hŷn - mae angen i chi weithio o leiaf 30 awr yr wythnos.
- Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn
  - mae angen i chi weithio o leiaf 16 awr yr wythnos, **a**
  - cymhwyso ar gyfer elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith.
- Os ydych yn 60 oed neu'n hŷn - mae angen i chi weithio o leiaf 16 awr yr wythnos.

***Os ydych yn gyfrifol am blant:***

- Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn - mae angen i chi weithio o leiaf 16 awr yr wythnos.
- Os ydych yn 60 oed neu'n hŷn - mae angen i chi weithio o leiaf 16 awr yr wythnos.
- Os ydych yn rhan o gwpl - mae angen i chi weithio o leiaf 24 awr yr wythnos rhyngoch gydag o leiaf un ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos **oni bai** fod y person arall:
  - yn analluog
  - yn yr ysbyty, neu
  - yn y carchar naill ai ar remand neu wedi'i ddedfrydu i gyfnod o gaethiwed.

Gweler tudalen 6 y Nodiadau.

### 4.3 Faint o oriau yr wythnos y byddwch yn eu gweithio fel arfer

***Os ydych yn gyflogedig (rydych yn gweithio i rywun arall)***
Nodwch gyfanswm yr oriau rydych yn eu gweithio mewn wythnos arferol. Cofiwch gynnwys unrhyw waith goramser a weithiwch mewn unrhyw wythnos. Os oes gennych fwy nag un swydd, adiwch yr oriau at ei gilydd.

***Os ydych yn hunangyflogedig (rydych yn gweithio i chi eich hun)***
Nodwch nifer yr oriau a weithiwch fel arfer yn eich busnes mewn wythnos, naill ai ar waith sydd wedi ei gynnwys ar fil a roddir i gleient neu weithgareddau cysylltiedig.

***Os ydych yn gweithio oriau gwahanol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn***
Nodwch nifer yr oriau yr wythnos a weithiwch fel arfer ar hyn o bryd. Rhowch wybod i ni os bydd eich oriau yn newid neu os ydych yn rhoi'r gorau i weithio yn gyfan gwbl.

***Os ydych yn gweithio yn ystod tymhorau'r ysgol yn unig***
Nodwch nifer yr oriau yr wythnos a weithiwch fel arfer yn ystod tymhorau'r ysgol.

***Os ydych yn ofalwr maeth***

Gallai'r oriau a weithiwch fel gofalwr maeth gyfrif tuag at gredydau treth os cewch eich talu gan eich awdurdod lleol. Os mai eich swydd fel gofalwr maeth yw eich prif ffynhonnell o incwm neu eich prif swydd, efallai y gallwch gael Credyd Treth Gwaith.

***Os ydych yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch***
Nodwch nifer yr oriau roeddech fel arfer yn eu gweithio cyn i chi fynd yn sâl. Cewch hawlio Credyd Treth Gwaith tra byddwch yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch:

- os gwnaethoch gais unigol ac
  - mae eich oriau arferol yn 16 awr neu fwy yr wythnos ac
  - rydych yn gyfrifol am blentyn, neu
  - rydych yn 60 oed neu'n hŷn, neu
- rydych wedi gwneud cais fel cwpl ac
  - rydych chi neu eich partner yn gyfrifol am blentyn a
  - mae eich oriau gwaith ar y cyd yn 24 awr neu fwy yr wythnos gydag o leiaf un ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos, neu
- ym mhob achos arall, mae eich oriau gwaith fel arfer yn 30 awr neu fwy yr wythnos ac rydych yn cael un o'r budd-daliadau canlynol:
  - Tâl Salwch Statudol
  - Budd-dal Analluogrwydd Byr Dymor ar y gyfradd is
  - Cymhorthdal Incwm a delir ar sail analluogrwydd i weithio
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
  - Credydau Yswiriant Gwladol ar sail analluogrwydd i weithio neu allu cyfyngedig i weithio.

***Os ydych ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu â thâl cyffredin neu ychwanegol***
(neu mi fyddech wedi bod ar absenoldeb tadolaeth â thâl ychwanegol petai'r amodau cymhwyso wedi'u bodloni)
Nodwch nifer yr oriau roeddech fel arfer yn eu gweithio cyn i'ch absenoldeb ddechrau. Os ydych yn hunangyflogedig dylech nodi nifer yr oriau yr oeddech yn gweithio fel arfer cyn i'r cyfnod o absenoldeb ddechrau petaech wedi cymhwyso ar gyfer absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu â thâl cyffredin neu ychwanegol, petaech wedi bod yn gyflogai.

Defnyddiwch yr enghreifftiau ar dudalen 9 i'ch helpu.

***Os cewch eich atal rhag gweithio***

Nodwch nifer yr oriau roeddech fel arfer yn eu gweithio cyn i chi gael eich atal rhag gweithio.

***Os ydych ar streic***

Os buoch ar streic am lai nag 11 diwrnod, nodwch nifer yr oriau roeddech fel arfer yn eu gweithio cyn i chi fynd ar streic.

Gallwch gael Credyd Treth Gwaith ar gyfer y 10 diwrnod cyntaf o'ch streic yn unig. Os bydd eich streic yn para am fwy na 10 diwrnod, rhowch wybod i ni ar unwaith. Ni allwch wneud cais newydd am Gredyd Treth Gwaith nes i chi ddychwelyd i'r gwaith.

***Os ydych wedi gadael eich swydd ond yn dal i gael eich talu***

Os ydych wedi gadael eich swydd ond yn dal i gael eich talu oherwydd ni roddwyd digon o rybudd i chi, ni chewch eich ystyried fel rhywun sy'n gweithio. Felly eich oriau arferol yw sero.

Ffoniwch ein Llinell Gymorth os ydych wedi gorffen gweithio yn ddiweddar ond yn bwriadu dechrau swydd newydd yn fuan.

**Enghraifft 1 – cymryd amser o'r gwaith**

Fel arfer mae Llion yn gweithio 28 awr yr wythnos. Yr wythnos hon cymerodd ddau ddiwrnod o wyliau yn ddi-dâl a gweithio 17 awr yn unig. Ond mae'n disgwyl gweithio 28 awr yr wythnos nesaf, a phob wythnos yn y dyfodol agos. Felly ei oriau arferol yw 28 awr yr wythnos.

**Enghraifft 2 – goramser rheolaidd**

Mae Twm dan gontract i weithio 25 awr yr wythnos. Yr wythnos hon mae hefyd wedi gweithio 10 awr o oramser. Yr wythnos diwethaf ni wnaeth Twm unrhyw waith goramser o gwbl, ond gan amlaf mae'n gweithio 5 awr ychwanegol yr wythnos.

Felly mae ei oriau arferol yn 30 awr yr wythnos, sy'n cynnwys y 25 awr yr wythnos o waith y mae dan gontract i'w wneud, a'r 5 awr o oramser y mae fel arfer yn eu gweithio bob wythnos. Nid yw'r ffaith nad yw wedi gweithio 30 awr yn union yn ystod yr wythnosau diwethaf yn gwneud gwahaniaeth.

**Enghraifft 3 – oriau gwahanol bob yn ail wythnos**

Mae Siwan yn gweithio 14 awr un wythnos, a 18 awr yr wythnos wedyn. Anaml iawn y mae hyn yn amrywio.

Er mwyn cyfrifo ei horiau wythnosol arferol dylai Siwan edrych ar nifer yr oriau y mae hi'n gweithio ar gyfartaledd dros y cylch pythefnos rheolaidd hwn.

Ei horiau arferol yw 16 awr yr wythnos. Caiff hyn ei cyfrifo fel a ganlyn.

Adiwch yr oriau a weithiwyd at ei gilydd 14 + 18 = 32.

Rhannwch 32 â 2 (nifer yr wythnosau) = 16

**Enghraifft 4 – mynd yn ôl i'r gwaith ar ôl bod yn ddi-waith**

Nid yw Lisa wedi gweithio o gwbl am y 10 mlynedd diwethaf. Dechreuodd swydd newydd yr wythnos diwethaf, gan weithio 20 awr yr wythnos. Felly ei horiau arferol yw 20 awr yr wythnos. Nid yw'r ffaith mai dim ond yr wythnos diwethaf y dechreuodd ei swydd yn newid y ffaith ei bod hi bellach yn gweithio 20 awr yr wythnos fel arfer.

**Enghraifft 5 – gweithio am ran o'r flwyddyn yn unig**

Mae Bethan fel arfer yn gweithio 35 awr yr wythnos am dri mis bob haf. Caiff hawlio Credyd Treth Gwaith yn ystod y cyfnod hwn o dri mis, ond pan fydd hi'n gorffen y gwaith tymhorol hwn, bydd ei Chredyd Treth Gwaith yn dod i ben, oni chaiff swydd arall o fewn wythnos i orffen ei swydd.

Os caiff swydd arall a bod ei horiau arferol yn llai na 30 awr yr wythnos, mae'n rhaid iddi ddweud wrthym am y newid o fewn un mis. Os na chaiff swydd arall mae'n rhaid iddi ddweud wrthym o fewn un mis ei bod wedi gorffen gweithio.

Ni all gael Credyd Treth Gwaith nes y daw'r cyfnod nesaf pan fydd ei horiau gwaith arferol yn ddigon uchel iddi gymhwyso unwaith eto.

**Enghraifft 6 – gweithio yn ystod y tymor yn unig**

Mae Nia yn gweithio 18 awr yr wythnos fel cynorthwyydd cinio mewn ysgol yn ystod y tymor. Felly ei horiau gwaith arferol yw 18 awr yr wythnos. Nid yw'r ffaith nad yw'n gweithio o gwbl yn ystod gwyliau'r ysgol yn gwneud gwahaniaeth, oherwydd bod y gwyliau hyn yn rhan o'i chylch gwaith blynyddol rheolaidd ac nid ydynt yn cyfrif wrth gyfrifo oriau gwaith arferol.

# Tudalen 6 o'ch ffurflen gais

**4.7 Cyfeirnod TWE eich cyflogwr**
Mae cyfeirnod TWE eich cyflogwr ar eich slipiau cyflog neu eich tystysgrif P60 a roddir gan eich cyflogwr neu eich Hysbysiad Cod TWE a roddir gennym ni. Os na allwch ddod o hyd i'r rhif hwn, gofynnwch yn y gwaith. Os oes gennych swydd newydd, cofiwch nodi rhif eich cyflogwr newydd.

*Enghraifft o gyfeirnod TWE cyflogwr*

grif Diwedd Blwyddyn 2011–12

Cyfeirnod TWE y cyflogwr

139 / H345

Llenwch y rhan hon os ydych yn hunangyflogedig - rydych yn gweithio i chi eich hun.

**4.11 Eich cyfeirnod treth**
Nodwch eich cyfeirnod 10 digid a ddangosir ar dudalen 1 eich Ffurflen Dreth.



RHAN 4 MANYLION GWAITH parhad

CHI – CYFLOGEDIG

4.5 Sawl swydd â thâl fel cyflogai sydd gennych?

4.6 Enw'r cyflogwr
Os oes gennych fwy nag un cyflogwr, rhowch wybod i ni am y swydd lle rydych yn gweithio'r nifer fwyaf o oriau

4.7 Cyfeirnod treth TWE eich cyflogwr
Edrychwch ar eich slip cyflog diweddaraf i gael hwn, gweler y Nodiadau, tudalen 10

4.8 Eich rhif cyflogres, os oes gennych un
Edrychwch ar eich slip cyflog diweddaraf i gael hwn

4.9 Cyfeiriad swyddfa gyflogau y cyflogwr
Cod post
Rhif yr adeilad
Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r adeilad

4.10 Rhif ffôn swyddfa gyflogau y cyflogwr yn llawn

CHI – HUNANGYFLOGEDIG

4.11 Eich cyfeirnod treth.
Mae hwn ar eich ffurflen dreth

4.12 Os nad ydych wedi anfon eich ffurflen dreth gyntaf atom eto, rhowch y dyddiad y gwnaethoch ddechrau hunangyflogaeth
D D M M B B B B

EICH PARTNER – CYFLOGEDIG

4.5

4.6 Enw'r cyflogwr
Os oes gennych fwy nag un cyflogwr, rhowch wybod i ni am y swydd lle rydych yn gweithio'r nifer fwyaf o oriau

4.7 Cyfeirnod treth TWE eich cyflogwr
Edrychwch ar eich slip cyflog diweddaraf i gael hwn, gweler y Nodiadau, tudalen 10

4.8 Eich rhif cyflogres, os oes gennych un
Edrychwch ar eich slip cyflog diweddaraf i gael hwn

4.9 Cyfeiriad swyddfa gyflogau y cyflogwr
Cod post
Rhif yr adeilad
Gweddill y cyfeiriad, gan gynnwys enw'r adeilad

4.10 Rhif ffôn swyddfa gyflogau y cyflogwr yn llawn

EICH PARTNER – HUNANGYFLOGEDIG

4.11 Eich cyfeirnod treth.
Mae hwn ar eich ffurflen dreth

4.12
D D M M B B B B

**4.5 Nifer y swyddi**
Nodwch '1' os mai dim ond un swydd gyflogedig sydd gennych.

Os oes gennych fwy nag un swydd gyflogedig ar wahân, nodwch y nifer. Er enghraifft, os oedd gennych swydd yn ystod y dydd a swydd ran amser gyda'r nos hefyd, byddech yn nodi '2'.

Peidiwch â chynnwys swyddi hunangyflogedig.

**4.9 Cyfeiriad swyddfa gyflogau'r cyflogwr**
Efallai nad yw cyfeiriad eich swyddfa gyflogau yr un peth â'ch gweithle - edrychwch ar eich slip cyflog neu gofynnwch yn y gwaith.

**4.12 Os nad ydych wedi anfon eich Ffurflen Dreth gyntaf atom eto**
Os ydych newydd ddechrau gweithio ar eich liwt eich hun, efallai na fydd gennych gyfeirnod treth eto. Os felly, nodwch y dyddiad y dechreuoch weithio ar eich liwt eich hun.

**Cyplau – nodwch eich manylion chi a manylion eich partner ar wahân yn y blychau a ddarperir.**

# Tudalen 7 o'ch ffurflen gais

**5.1 Budd-daliadau nawdd cymdeithasol**
**Peidiwch** â rhoi 'X' yma os ydych:

- yn derbyn Lwfans Ceisio Gwaith yn **seiliedig ar gyfraniadau**
- wedi hawlio un o'r budd-daliadau hyn ond heb glywed a gewch eich talu, neu
- yn cael taliad ychwanegol ar gyfer un ohonynt oherwydd
  – eich bod wedi dechrau gweithio yn y pythefnos diwethaf, neu
  – byddwch yn dechrau gweithio yn ystod y saith diwrnod nesaf.

Os ydych wedi gwneud cais am un o'r budd-daliadau hyn ac yn aros i glywed a fyddwch yn ei gael, rhowch wybod i ni ar unwaith pan fyddwch yn dechrau cael eich talu.

**5.2 Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy a gafwyd**
Os ydych wedi cael unrhyw un o'r budd-daliadau a restrir isod, adiwch nhw at ei gilydd a nodwch y cyfanswm:

- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth **yn seiliedig ar gyfraniadau**
- Lwfans Gofalwyr
- Lwfans Ceisio Gwaith yn **seiliedig ar gyfraniadau**
- Budd-dal Analluogrwydd a dalwyd ar ôl y 28 wythnos gyntaf o analluogrwydd. **Peidiwch** â chynnwys Budd-dal Analluogrwydd os gwnaethoch ei hawlio cyn 1995 ac rydych wedi ei gael byth ers hynny
- Cymhorthdal Incwm trethadwy (mae hyn ond yn berthnasol os oeddech yn gwpl, ac roedd y person a gafodd Cymhorthdal Incwm ar streic).

Nodwch unrhyw bensiynau'r wladwriaeth ym mlwch 5.6.

Os nad ydych yn siŵr pa fudd-daliadau a gawsoch, neu faint, cysylltwch â'ch swyddfa Nawdd Cymdeithasol neu Ganolfan Byd Gwaith.


RHAN 5 MANYLION INCWM

**Mae swm y credydau treth a gewch yn dibynnu ar eich incwm (y ddau incwm yn achos cyplau). Rhowch fanylion incwm ym mlychau 5.2 i 5.6.**

**Fodd bynnag**, os ydych chi (neu'ch partner os oes gennych un) yn cael Cymhorthdal Incwm (ond nid ar ffurf taliad sy'n parhau *(run-on payment)* nac os yw'ch Cymhorthdal Incwm yn drethadwy), Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, neu Credyd Pensiwn, rhowch 'X' yn y blwch priodol yn 5.1 ac ewch yn syth i RHAN 6.

CHI

5.1 **Os ydych yn cael unrhyw un o'r canlynol, rhowch 'X' yn y blwch hwnnw. Os ydych newydd wneud cais ac yn aros i glywed p'un a gewch eich talu, gweler y Nodiadau, tudalen 11. PEIDIWCH â chwblhau'r canlynol os byddwch yn dechrau gweithio yn ystod y 7 diwrnod nesaf a byddwch yn rhoi'r gorau i hawlio unrhyw un o'r canlynol:**

Cymhorthdal Incwm
Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
Credyd Pensiwn

EICH PARTNER

5.1 **Os ydych yn cael unrhyw un o'r canlynol, rhowch 'X' yn y blwch hwnnw. Os ydych newydd wneud cais ac yn aros i glywed p'un a gewch eich talu, gweler y Nodiadau, tudalen 11. PEIDIWCH â chwblhau'r canlynol os byddwch yn dechrau gweithio yn ystod y 7 diwrnod nesaf a byddwch yn rhoi'r gorau i hawlio unrhyw un o'r canlynol:**

Cymhorthdal Incwm
Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
Credyd Pensiwn

+

**Yng ngweddill y RHAN hon, rhowch fanylion eich incwm am y flwyddyn 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012. Nid oes angen cynnwys ceiniogau yn y ffigurau a roddwch** – talgrynnwch i lawr i'r bunt agosaf.
Os oes angen mwy o gymorth arnoch i gyfrifo eich incwm **gweler y Nodiadau, tudalennau 12 i 16.**
Os gwnaethoch chi (neu'ch partner os oes gennych un) golled fasnachol, neu os gwnaethoch dalu cyfraniadau pensiwn gros neu daliadau Rhodd Cymorth, ffoniwch y Llinell Gymorth am daflen waith TC825 a fydd yn eich helpu i gyfrifo eich incwm **cyn** i chi nodi unrhyw beth ym mlychau 5.2 i 5.6.

EICH INCWM CHI

**Peidiwch â chynnwys Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Credyd Pensiwn na Lwfans Byw i'r Anabl**. Gweler y Nodiadau, tudalen 11 ynghylch pa incwm a buddiannau y dylech eu cynnwys.

5.2 **Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy a gafwyd yn y flwyddyn o 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012**. Gweler y Nodiadau, tudalen 11 ynghylch manylion y buddiannau i'w cynnwys

£ . 00

5.3 **Enillion fel cyflogai o bob swydd am y flwyddyn 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012.**
(Os oeddech yn hunangyflogedig, mae eich incwm yn mynd ym mlwch 5.5.) Nodwch gyfanswm eich enillion am y flwyddyn, cyn didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Chwiliwch am y ffigur o dan 'cyfanswm y cyflog' neu 'cyfanswm am y flwyddyn' ar eich **Tystysgrif Diwedd Blwyddyn P60**. Gweler y Daflen Waith ar dudalen 12 am ddidyniadau y gallwch eu gwneud, gan gynnwys talia Rhodd cymorth cyfraniadau pensiwn, Tâl Mamolaeth, Tadolaeth neu Fabwysiadu Statudol. **Os oedd gennych fwy nag un swydd yn ystod y flwyddyn** – un ar ôl y llall neu ar yr un pryd – mae angen gwybodaeth arnom am **gyfanswm** eich cyflog o bob un ohonynt. Am ragor o gymorth gweler y Nodiadau, tudalennau 11 a 12

£ . 00

INCWM EICH PARTNER

**Peidiwch â chynnwys Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, Credyd Pensiwn na Lwfans Byw i'r Anabl**. Gweler y Nodiadau, tudalen 11 ynghylch pa incwm a buddiannau y dylech eu cynnwys.

5.2 **Budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy a gafwyd yn y flwyddyn o 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012**. Gweler y Nodiadau, tudalen 11 ynghylch manylion y buddiannau i'w cynnwys

£ . 00

5.3 **Enillion fel cyflogai o bob swydd am y flwyddyn 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012.**
(Os oeddech yn hunangyflogedig, mae eich incwm yn mynd ym mlwch 5.5.) Nodwch gyfanswm eich enillion am y flwyddyn, cyn didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Chwiliwch am y ffigur o dan 'cyfanswm y cyflog' neu 'cyfanswm am y flwyddyn' ar eich **Tystysgrif Diwedd Blwyddyn P60**. Gweler y Daflen Waith ar dudalen 12 am ddidyniadau y gallwch eu gwneud, gan gynnwys taliadau Rhodd cymorth cyfraniadau pensiwn, Tâl Mamolaeth, Tadolaeth neu Fabwysiadu Statudol. **Os oedd gennych fwy nag un swydd yn ystod y flwyddyn** – un ar ôl y llall neu ar yr un pryd – mae angen gwybodaeth arnom am **gyfanswm** eich cyflog o bob un ohonynt. Am ragor o gymorth gweler y Nodiadau, tudalennau 11 a 12

£ . 00

## Help

Os oes angen unrhyw help arnoch, ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth Cymraeg. Ffôn **0300 200 1900**

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5.00pm.

Gwasanaeth Saesneg **0845 300 3900**

Ffôn testun **0845 300 3909**.

I weld oriau agor y gwasanaeth Saesneg ewch i **www.hmrc.gov.uk/contactus**

**5.3 Enillion fel cyflogai**
Os ydych yn gyflogai, peidiwch â gadael y blwch hwn yn wag. Gallwch weld faint rydych wedi'i ennill ar eich P45 neu P60 neu eich slip cyflog terfynol.

*Enghreifftiau isod:*
*'Cyfanswm cyflog hyd yn hyn ar y P45*


s yw'r cod ar sail wythnos 1 neu fis 1. Ewch i flwch 8.
Rhif mis
n y cyflog hyd yn hyn
9 2 8 3 . 9 1
n y dreth hyd yn hyn
1 3 3 6 . 4 2

*'Cyfanswm ar gyfer y flwyddyn' ar y P60*


me Tax details
Pay £ p
mployment(s)
nployment *
9,283 . 91
Total for year
9,283 . 91
ows & Orphans/Life ributions in this employment *

**Peidiwch ag anfon y rhain atom ni.**

Os nad ydych yn siŵr beth i'w roi, ffoniwch ein Llinell Gymorth.

Os ydych chi (neu eich partner) yn hunangyflogedig, bydd eich elw yn mynd ym mlwch 5.5 ar dudalen 8 eich ffurflen gais.

**Cyplau – nodwch eich manylion chi a manylion eich partner ar wahân yn y blychau a ddarperir.**

## 5.3 Taflen Waith – Enillion fel cyflogai o bob swydd am y flwyddyn 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012

**Ffoniwch ein Llinell Gymorth os nad ydych yn siŵr pa incwm i'w nodi yma.**

### Nodwch eich enillion yn gyntaf

**Os buoch yn gweithio y tu allan i'r DU yn 2011-12 dylech nodi eich enillion mewn punnoedd Prydeinig, nid yn yr arian tramor.**

| | Chi | Eich partner |
|---|---|---|
| Cyfanswm eich cyflog o'ch holl waith cyflogedig, gan gynnwys unrhyw gildyrnau neu arian rhodd a Thâl Salwch Statudol. Nodwch y swm **gros** (cyn i dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol gael eu didynnu). | £ | £ |
| Tâl gan eich cyflogwr oherwydd bod eich swydd wedi newid neu ddod i ben. Ni chaiff £30,000 cyntaf y tâl diswyddo ei drethu, felly peidiwch â'i gynnwys yma. Nodwch unrhyw swm a gawsoch sy'n fwy na'r swm hwnnw. | £ | £ |
| Enillion trethadwy o opsiynau gwarantau a gawsoch oherwydd eich swydd, er enghraifft, cyfranddaliadau neu fondiau cwmni. | £ | £ |
| Tâl streic gan eich undeb llafur. | £ | £ |
| Tâl am waith a wnaethoch yn y carchar neu ar remand. | £ | £ |
| **Cyfanswm eich enillion** | £ | £ |

### Nawr, nodwch eich didyniadau

| | | |
|---|---|---|
| Treuliau gwaith a dalwyd gennych ac sydd heb eu had-dalu i chi gan eich cyflogwr. Mae'n rhaid i'r treuliau fod yn gyfan gwbl, yn unswydd ac o angenrheidrwydd wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau. | £ | £ |
| Taliadau y gellir eu didynnu at ddibenion treth a wnaed gennych, nad ydynt wedi'u had-dalu i chi. Er enghraifft ffioedd i gyrff proffesiynol, ffioedd asiantaethau, yswiriant indemnedd | £ | £ |
| Treuliau cyfradd unffurf y cytunwyd arnynt gan eich cyflogwr a ni er mwyn cynnal neu adnewyddu offer neu ddillad arbennig newydd sydd eu hangen arnoch i wneud eich gwaith. | £ | £ |
| Taliadau Rhodd Cymorth, cyfraniadau pensiwn personol a dalwyd gennych i gynllun cofrestredig. Dylech gynnwys Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Rhydd a thaliadau i bensiynau Cyfranddeiliaid. Nodwch y swm gros. **Peidiwch â chynnwys** cyfraniadau a dalwyd gennych drwy eich cyflogwr. | £ | £ |
| Tâl Mamolaeth, Tadolaeth Cyffredin neu Ychwanegol neu Dâl Mabwysiadu Statudol. Os oedd eich taliadau yn fwy na £100 yr wythnos, nodwch £100 yn y blwch ar gyfer bob wythnos. Er enghraifft, os cawsoch hwy am 30 wythnos, nodwch £3,000. Os oedd eich taliadau yn llai na £100 yr wythnos, nodwch y swm a dderbyniwyd gennych. Er enghraifft, os cawsoch £80 am 30 wythnos, nodwch £2,400. Peidiwch â chynnwys Lwfans Mamolaeth. | £ | £ |
| **Cyfanswm y didyniadau** | £ | £ |
| **Tynnwch gyfanswm eich didyniadau o gyfanswm eich enillion.** *Nodwch y swm hwn ym mlwch 5.3.* ***Peidiwch â chynnwys*** *y ceiniogau.* | £ | £ |

**Peidiwch ag anfon y Daflen Waith hon atom**

# Tudalen 8 o'ch ffurflen gais

**5.4 Buddiannau gan eich cyflogwr**

Bydd eich cyflogwr yn rhoi'r manylion sydd eu hangen arnoch ar ffurflen P11D neu P9D. Os yw eich cyflogwr wedi cynnwys buddiannau ar eich P60 neu eich P45, bydd angen i chi ddidynnu'r cyfwerth mewn arian parod o'r cyfanswm ar eich P60 neu eich P45 a chynnwys y ffigur hwn ym mlwch 5.4. Gweler tudalen 14.

**5.5 Incwm o hunangyflogaeth**

Os ydych yn hunangyflogedig, rhaid i chi ddweud wrthym am eich elw am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2012. Defnyddiwch y nodiadau ar dudalen 15 i'ch helpu i gyfrifo eich elw neu i ganfod pa ffigurau sydd angen i chi eu cymryd o'ch ffurflen dreth.

**5.6 Incwm arall**

Mae incwm o bensiwn yn cynnwys:

- Lwfans Mam Weddw
- Lwfans Rhiant Gweddw
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol.

Mae incwm o ymddiriedolaeth yn cynnwys arian o ystâd.

Mae incwm o dramor yn cynnwys pensiwn o dramor.



RHAN 5 MANYLION INCWM parhad

**Cofiwch, mae angen manylion arnom am y flwyddyn 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012.**
Mae'r Nodiadau, tudalennau 12 i 16, yn egluro sut i gyfrifo eich incwm blynyddol ac yn dweud wrthych sut i gysylltu â ni os bydd angen mwy o help arnoch.

EICH INCWM CHI

5.4 **Car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy, a thaliadau mewn nwyddau** – am y flwyddyn o 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012.
Os cawsoch unrhyw un o'r rhain gan eich cyflogwr mae angen i ni wybod cyfanswm eu 'gwerth cyfatebol mewn arian parod'. Chwiliwch am y ffigurau hyn ar:
• **ffurflen P11D, neu**
• **ffurflen P9D**
y dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi i chi erbyn mis Gorffennaf 2012. Bydd y Nodiadau, tudalennau 13 a 14, yn eich helpu i gyfrifo'r **cyfanswm a gawsoch**

£ . 0 0

5.5 **Incwm o hunangyflogaeth**
• Os **nad ydych** wedi anfon ffurflen dreth atom am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2012 neu os yw'ch busnes yn derbyn incwm rhent, gweler y Nodiadau, tudalennau 13 a 15. Mae'r rhain yn esbonio sut i gyfrifo eich elw o hunangyflogaeth.
• Os **ydych** wedi anfon ffurflen dreth atom am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2012, nodwch gyfanswm eich elw net, llai swm gros unrhyw gyfraniadau a wnaed i gynllun pensiwn. Gweler y Nodiadau, tudalen 15. Os gwnaethoch golled, nodwch '0.00'

£ . 0 0

INCWM EICH PARTNER

5.4 **Car cwmni a thanwydd, talebau trethadwy, a thaliadau mewn nwyddau** – am y flwyddyn o 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012.
Os cawsoch unrhyw un o'r rhain gan eich cyflogwr mae angen i ni wybod cyfanswm eu 'gwerth cyfatebol mewn arian parod'. Chwiliwch am y ffigurau hyn ar:
• **ffurflen P11D, neu**
• **ffurflen P9D**
y dylai eich cyflogwr fod wedi rhoi i chi erbyn mis Gorffennaf 2012. Bydd y Nodiadau, tudalennau 13 a 14, yn eich helpu i gyfrifo'r **cyfanswm a gawsoch**

£ . 0 0

5.5 **Incwm o hunangyflogaeth**
• Os **nad ydych** wedi anfon ffurflen dreth atom am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2012 neu os yw'ch busnes yn derbyn incwm rhent, gweler y Nodiadau, tudalennau 13 a 15. Mae'r rhain yn esbonio sut i gyfrifo eich elw o hunangyflogaeth.
• Os **ydych** wedi anfon ffurflen dreth atom am y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2012, nodwch gyfanswm eich elw net, llai swm gros unrhyw gyfraniadau a wnaed i gynllun pensiwn. Gweler y Nodiadau, tudalen 15. Os gwnaethoch golled, nodwch '0.00'

£ . 0 0

INCWM ARALL

**Os cawsoch unrhyw incwm arall o 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012 nad ydych wedi'i gynnwys ym mlychau 5.2 i 5.5, rhowch fanylion ym mlwch 5.6.**
Peidiwch â chwblhau'r blwch hwn os yw cyfanswm eich incwm arall yn llai na £300. Os byddwch yn gwneud cais fel cwpl, eich incwm arall ar y cyd sy'n cyfrif. **Rhaid** i chi ddefnyddio'r Daflen Waith yn y Nodiadau, tudalen 16, i gyfrifo eich cyfanswm. Dylech gynnwys unrhyw **incwm arall** dros £300, yn ogystal â swm llawn unrhyw **Grant Oedolyn Dibynnol** ac **incwm trethadwy amrywiol**. Gweler y Nodiadau, tudalen 16.
Er enghraifft, os yw cyfanswm eich incwm arall yn £421, dylech gynnwys £121 (£421 llai £300). Yna ychwanegwch swm **llawn** unrhyw Grant Oedolyn Dibynnol neu incwm trethadwy amrywiol. Felly, os oes gennych £50 o incwm amrywiol [illegible] (£50 a'r £121).

**Mae incwm arall yn cynnwys:**
• **llog gros ar gynilion, buddsoddiadau, a difidendau** cynhwyswch log o unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu (ond nid Cyfrifon Cynilo Unigol (ISAs) na chyfrifon di-dreth eraill)
• **pensiynau Nawdd Cymdeithasol** ac unrhyw bensiynau eraill
• **incwm o eiddo** neu dir yn y Deyrnas Unedig a osodwyd gennych (ond nid os ydych yn gosod ystafell wedi ei dodrefnu yn eich cartref am £4,250 y flwyddyn neu lai)
• **incwm gros o ymddiriedolaeth**
• **incwm tramor**, gweler y Nodiadau, tudalen 16
• **incwm tybiannol.**

5.6 **Cyfanswm incwm arall**

£ . 0 0

INCWM AMCANGYFRIFEDIG

Pan fyddwch chi (neu'ch partner os oes gennych un) yn llenwi'r ffurflen hon efallai na fydd gennych yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnoch i'w rhoi i ni ynghylch eich incwm. Os oes unrhyw symiau a ddangosir yn 5.2 i 5.6 yn cynnwys amcangyfrifon, mae angen i ni wybod.

5.7 **A wnaethoch chi, neu eich partner, ddefnyddio amcangyfrifon wrth gyfrifo eich incwm?**
Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig

☐ Do ☐ Naddo

## Help

Os oes angen unrhyw help arnoch, ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth Cymraeg. Ffôn **0300 200 1900**

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5.00pm.

Gwasanaeth Saesneg **0845 300 3900**

Ffôn testun **0845 300 3909**.

I weld oriau agor y gwasanaeth Saesneg ewch i **www.hmrc.gov.uk/contactus**

**5.6 Incwm arall**

Peidiwch â llenwi'r blwch hwn os yw eich incwm arall yn:

- llai na £300
- taliad cynhaliaeth
- grant neu fenthyciad myfyriwr.

**Cyplau – nodwch eich manylion chi a manylion eich partner ar wahân yn y blychau a ddarperir.**

## 5.4 Taflen Waith – Car cwmni a thanwydd, talebau a buddiannau trethadwy am y flwyddyn 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012

**Ffoniwch ein Llinell Gymorth os nad ydych yn siŵr pa incwm i'w nodi yma.**

### Copïwch yr wybodaeth o'ch ffurflen P9D neu P11D a gewch gan eich cyflogwr. Os oedd gennych fwy nag un cyflogwr, adiwch y ffigurau hyn at ei gilydd.

| | Chi | Eich partner |
|---|---|---|
| Nwyddau ac asedau y mae eich cyflogwr wedi'u rhoi i chi (er enghraifft, rhoddion o fwyd, tanwydd, sigaréts neu ddillad) – a ddangosir ar P11D adran A neu P9D adran A(2) yn y trydydd neu'r pedwerydd blwch. | £ | £ |
| Taliadau a wnaeth eich cyflogwr ar eich rhan (er enghraifft, rhent neu filiau cyfleustodau a dalwyd) – a ddangosir ar P11D adran B yn y blwch cyntaf rhif 15, neu P9D adran A(2) yn y blwch cyntaf, yr ail flwch a'r pumed blwch. | £ | £ |
| Talebau arian parod a thalebau nad ydynt yn rhai arian parod a thocynnau credyd (er enghraifft, cerdyn credyd cwmni) – a ddangosir ar P11D adran C, neu P9D adran B (adiwch bob un o'r blychau at ei gilydd). Peidiwch â chynnwys cyfwerth mewn arian parod unrhyw dalebau gofal plant os cânt eu defnyddio i dalu am ofal plant cofrestredig neu gymeradwy. | £ | £ |
| Lwfans milltiroedd. Dylech gynnwys taliadau am ddefnyddio eich car eich hun – nodwch y swm trethadwy a ddangosir ar y P11D adran E. Dylech hefyd gynnwys unrhyw gostau rhedeg y mae eich cyflogwr wedi talu amdanynt – a ddangosir ar P11D adran E neu a gynhwysir yn adran N. Os na thelir eich costau milltiroedd gan eich cyflogwr, neu os bydd ond yn talu ychydig o'r costau, ffoniwch ein Llinell Gymorth. | £ | £ |
| Car cwmni – a ddangosir ar P11D ym mlwch 9 o adran F. | £ | £ |
| Buddiant tanwydd car – a ddangosir ar P11D ym mlwch 10 o adran F. | £ | £ |
| Taliadau treuliau a wnaed i chi neu ar eich rhan – a ddangosir ar P11D adrannau J, M neu N neu P9D adran A(1). Mae'n bosibl y gallech leihau'r swm hwn drwy hawlio didyniad am dreuliau a ganiateir at ddibenion Treth Incwm penodol. Ffoniwch ein Llinell Gymorth. | £ | £ |
| **Cyfanswm**. *Nodwch y swm hwn ym mlwch 5.4.* ***Peidiwch â chynnwys*** *y ceiniogau.* | £ | £ |

**Peidiwch ag anfon y Daflen Waith hon atom**

***Os gwnaethoch daliadau Rhodd Cymorth, cyfraniadau pensiwn neu os cawsoch golledion masnachu***

Ewch i **www.hmrc.gov.uk/forms/tc825.pdf** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth a gofynnwch am TC825 os oedd un o'r canlynol yn gymwys ar gyfer 2011-2012:

- gwnaethoch unrhyw daliadau Rhodd Cymorth
- gwnaethoch gyfraniadau at gynllun pensiwn sydd wedi'i gofrestru â Chyllid a Thollau EM
- roedd gennych golledion masnachu.

## 5.5 Incwm o hunangyflogaeth am y flwyddyn 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012

***Os nad ydych wedi llenwi eich ffurflen dreth ar gyfer 2011–2012***

Mae angen i chi amcangyfrif eich elw ac ateb 'Ydw' i gwestiwn 5.7. Pan fyddwch yn gwybod yn union faint o elw a wnaethoch, dwedwch wrthym.

***Os ydych wedi llenwi eich ffurflen dreth ar gyfer 2011–2012***

Nodwch gyfanswm eich elw ar gyfer y flwyddyn ym mlwch 5.5. Copïwch y swm hwn o un o'r canlynol:

- Ffurflen dreth fer, blwch 3.10
- Tudalennau hunangyflogaeth (byr), blwch 27
- Tudalennau hunangyflogaeth (llawn), blwch 72, neu
- Tudalennau partneriaeth (byr neu lawn), blwch 14.

Talgrynnwch eich elw i lawr i'r bunt agosaf cyn ei nodi ym mlwch 5.5.
Er enghraifft, os mai £8,345.64 oedd cyfanswm eich elw, rhowch £8345.

***Os oes gennych fwy nag un busnes***

Adiwch at ei gilydd:

- yr elw wedi'i addasu o bob un o'ch tudalennau Hunangyflogaeth
- eich cyfran chi o elw'r bartneriaeth a addaswyd o bob un o'ch tudalennau Partneriaeth (byr neu lawn).

***Os oedd gan eich busnes incwm neu elw arall***

Dylech gynnwys y rhain yn y swm ar gyfer blwch 5.5. - er enghraifft, incwm rhent. Dylech gynnwys unrhyw symiau o:

- Tudalennau hunangyflogaeth (byr), blwch 29
- Tudalennau hunangyflogaeth (llawn), blwch 74
- Tudalennau partneriaeth (byr), blwch 17 neu 26
- Tudalennau partneriaeth (llawn), blwch 17, 66, 69, 72 neu 73.

***Os ydych yn defnyddio dull cyfartalu oherwydd eich bod yn ffermwr, yn arddwr masnachol neu'n grëwr gweithiau llenyddol neu artistig***

Ni allwch ddefnyddio dull cyfartalu yn eich cais am gredydau treth. Felly mae angen addasu cyfanswm eich elw i ddileu'r cyfartalu. Dyma sut rydych yn gwneud hynny.

Byddwch wedi nodi ffigur yn:

- Tudalennau hunangyflogaeth (llawn), blwch 71, neu
- Tudalennau partneriaeth (byr neu lawn), blwch 10.

Os bydd y ffigur yn y naill flwch neu'r llall yn cynyddu eich elw, didynnwch y swm hwn o gyfanswm eich elw.

Os bydd y ffigur yn y naill flwch neu'r llall yn lleihau eich elw, adiwch y swm hwn at gyfanswm eich elw.

***Os oeddech yn masnachu y tu allan i'r DU yn 2011–2012***

Dylech nodi eich elw mewn punnoedd Prydeinig, **nid** yn yr arian tramor. Ffoniwch ein Llinell Gymorth os oes angen cymorth arnoch gyda hyn.

***Incwm trethadwy a geir drwy faethu***

Dylech gynnwys incwm trethadwy a geir drwy faethu fel incwm hunangyflogaeth. At ddibenion credydau treth mae'r incwm a gewch drwy faethu'r un peth â'ch elw trethadwy a gewch drwy faethu.

## 5.6 Taflen Waith – Incwm arall am y flwyddyn 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012

**Ffoniwch ein Llinell Gymorth os nad ydych yn siŵr pa incwm i'w nodi yma.**

| | Chi | Eich partner |
|---|---|---|
| Incwm o gynilion a buddsoddiadau, gan gynnwys difidendau. Nodwch y swm **gros** (cyn didynnu treth). Peidiwch â chynnwys buddsoddiadau sydd wedi'u heithrio rhag treth megis ISAs. Cofiwch gynnwys swm llawn unrhyw 'enillion digwyddiad trethadwy' o bolisi yswiriant bywyd. | £ | £ |
| Pensiynau'r Wladwriaeth (gan gynnwys Pensiwn Gwraig Weddw, Lwfans Mam Weddw, Lwfans Rhiant Gweddw a Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol). Peidiwch â chynnwys bonws y Nadolig na'r taliad tanwydd gaeaf. | £ | £ |
| Pensiynau eraill y DU a gewch (nid pensiynau rhyfel). Os yw eich pensiwn yn cynnwys swm ychwanegol ar gyfer salwch neu anaf sy'n gysylltiedig â'r gwaith, ffoniwch ein Llinell Gymorth. | £ | £ |
| Incwm eiddo. **Peidiwch â chynnwys** incwm o'r cynllun 'rhentu ystafell'. Peidiwch â chynnwys unrhyw beth rydych eisoes wedi'i gynnwys ym mlwch 5.5. Os gwnaeth eich eiddo sydd wedi'i rentu golled, ffoniwch ein Llinell Gymorth a gofynnwch am daflen waith TC825 i'ch helpu. | £ | £ |
| Incwm o ymddiriedolaethau, setliadau ac ystadau. Cewch fanylion ar dystysgrif R185, y dylai'r ymddiriedolwyr neu'r gweinyddwyr fod wedi'i rhoi i chi. Nodwch y swm **gros** - adiwch y symiau 'net' a'r symiau 'treth a dalwyd' neu 'gredyd treth' at ei gilydd. | £ | £ |
| Incwm tramor, er enghraifft, incwm o fuddsoddiadau ac eiddo dramor. Dylech gynnwys y swm llawn mewn punnoedd Prydeinig p'un a gafodd ei drosglwyddo i'r DU ai peidio. Nodwch y swm **gros** mewn punnoedd Prydeinig. Os ydych yn cael pensiwn tramor dylech gynnwys 90% ohono yma. Didynnwch unrhyw dâl bancio neu gomisiwn a dalwyd gennych wrth drosi arian tramor i bunnoedd Prydeinig. I gael mwy o wybodaeth ynghylch sut i drosi arian tramor, ewch i **www.hmrc.gov.uk/exrate** | £ | £ |
| Incwm tybiannol. Mae hyn yn cynnwys pethau fel difidendau stoc, neu incwm y gallech fod wedi'i dderbyn ond gwnaethoch ddewis peidio â'i dderbyn. Ffoniwch ein Llinell Gymorth os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am hyn. | £ | £ |
| | £ | £ |

### Cyfanswm

| | | |
|---|---|---|
| **Adiwch y cyfansymiau ar eich cyfer chi a'ch partner at ei gilydd** | £ | |
| **Tynnwch £300 o'r ffigur.** Os bydd hyn yn rhoi ffigur minws, nodwch 0. | £ | |
| Os cawsoch chi neu'ch partner Grant Oedolyn Dibynnol am fod yn fyfyriwr (neu yn Yr Alban unrhyw **blentyn** neu **oedolyn** ddibynnol am fod yn fyfyriwr) neu incwm trethadwy amrywiol nas cynhwysir uchod, nodwch ef yma. Ffoniwch ein Llinell Gymorth os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am hyn. | £ | |

**Peidiwch ag anfon y Daflen Waith hon atom**

# Tudalen 9 o'ch ffurflen gais

**6.1 Dewiswch pa mor aml rydych am i ni dalu Credyd Treth Plant i chi**
Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, mae Credyd Treth Plant yn disodli rhan o'r budd-daliadau hynny. Bydd angen i chi benderfynu p'un a ydych am gael eich taliadau bob wythnos o hyd.

**6.2 Cyplau yn unig – pa un ohonoch yw'r prif ofalwr?**
Os ydych yn hawlio fel cwpl, penderfynwch pwy yw'r prif ofalwr. Os mai dim ond un ohonoch sy'n gweithio, fel arfer y person sydd gartref gyda'r plant fydd y prif ofalwr.



RHAN 6 MANYLION TALU

**Hawlio credydau treth**
**Os oes plant gennych** – llenwch yr adran Credyd Treth Plant.
**Os ydych yn gweithio** – llenwch yr adran Credyd Treth Gwaith.
**Os oes plant gennych ac rydych yn gweithio** – llenwch yr adran Credyd Treth Plant **a'r** adran Credyd Treth Gwaith.

CREDYD TRETH PLANT

Telir Credyd Treth ... prif ofalwr. Y prif ofalwr yw'r person sy'n bennaf gyfrifol am ... Caiff ei dalu'n uniongyrchol i mewn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®. Felly sicrhewch eich bod yn llenwi 6.5 i 6.9 ar dudalen 10. Gallwch ddewis cael eich talu bob wythnos neu bob 4 wythnos.

**Cyplau**
Dywedwch wrthym pa un ohonoch yw'r prif ofalwr.

6.1 **Dewiswch pa mor aml rydych am i ni dalu Credyd Treth Plant i chi.**
Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig. Gweler y Nodiadau, tudalen 17
☐ Bob wythnos ☐ Bob 4 wythnos

6.2 **Cyplau yn unig – p'un ohonoch yw'r prif ofalwr?**
Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig. Gweler y Nodiadau, tudalen 17
☐ Chi ☐ Eich partner
Sicrhewch fod y person a ddewiswch yn rhoi manylion y cyfrif yn y golofn briodol ar dudalen 10.

+

CREDYD ... GWAITH

... Credyd Treth Gwaith i berson sy'n gweithio. Caiff ei dalu'n uniongyrchol i mewn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®. Felly sicrhewch eich bod yn llenwi 6.5 i 6.9 ar dudalen 10. Gallwch ddewis cael eich talu bob wythnos neu bob 4 wythnos.

**Cyplau lle mae'r ddau ohonoch yn gweithio.**
Gallwn dalu Credyd Treth Gwaith i un ohonoch yn unig. Rhaid i chi ddewis pa un ohonoch y dylem ei dalu/thalu. Cyn penderfynu gweler y Nodiadau, tudalen 17.

6.3 **Dewiswch pa mor aml rydych am i ni dalu Credyd Treth Gwaith i chi.**
Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig.
☐ Bob wythnos ☐ Bob 4 wythnos

6.4 **Cyplau lle mae'r ddau ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy.**
Dewiswch pa un ohonoch sydd i gael y taliad ar gyfer Credyd Treth Gwaith. Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig. Gweler y Nodiadau, tudalen 17
☐ Chi ☐ Eich partner
Sicrhewch fod y person a ddewiswch yn rhoi manylion y cyfrif yn y golofn briodol ar dudalen 10.

## Help

Os oes angen unrhyw help arnoch, ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth Cymraeg. Ffôn **0300 200 1900**

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5.00pm.

Gwasanaeth Saesneg **0845 300 3900**

Ffôn testun **0845 300 3909**.

I weld oriau agor y gwasanaeth Saesneg ewch i **www.hmrc.gov.uk/contactus**

**6.4 Cyplau sy'n gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy yr un**
Dim ond i un ohonoch y gallwn dalu Credyd Treth Gwaith. Felly, bydd angen i chi ddweud pwy y dylem ei dalu.
Credydau Yswiriant Gwladol - petai un ohonoch yn gallu hawlio credydau, dylech ddewis y person hwnnw i wneud yn siŵr ei fod/bod yn cael unrhyw gredydau Yswiriant Gwladol y gallai ef/hi fod a hawl iddynt.
I gael mwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk** a dilynwch y cysylltiad i National Insurance.

# Tudalen 10 o'ch ffurflen gais

Llenwch fanylion eich cyfrif yn ofalus. Os byddant yn anghywir caiff eich taliadau eu hoedi.

**6.5 Enw deiliad/Enwau deiliaid y cyfrif**
Rhowch enw'r cyfrif yn union fel y mae'n ymddangos ar eich cyfriflenni, paslyfr neu lyfr sieciau. Os yw'n gyfrif ar y cyd, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r ddau enw.

Os ydych am ddefnyddio cyfrif nad yw yn eich enw chi, er enghraifft, eich partner neu berson arall, gallwch wneud hynny. Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn cael yr arian gan y person hwnnw byddwch yn dal yn gyfrifol am unrhyw ordaliad.

**6.6 Rhif y cyfrif**
Fel arfer mae rhif eich cyfrif yn cynnwys wyth digid ac fe'i ddangosir ar eich cyfriflenni neu lyfr sieciau. Dylech gynnwys unrhyw sero - er enghraifft, 00123456.

Os yw rhif y cyfrif yn fwy nag wyth digid, gallai fod oherwydd bod eich cyfrif gyda chymdeithas adeiladu neu fanc a oedd yn arfer bod yn gymdeithas adeiladu.


RHAN 6 MANYLION TALU parhad

**Rydym yn talu credydau treth i gyfrif banc cymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®.**

**Cyplau** – rhaid llenwi'r ddwy ochr o'r adran hon dim ond os ydych am i'ch Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith gael eu talu i gyfrifon ar wahân.

**Mae angen i chi roi manylion isod o'r cyfrif rydych am i ni dalu credydau treth iddo.** Gweler y Nodiadau, tudalen 18.

- Gallwch ddefnyddio cyfrif sydd gennych eisoes - bydd manylion y cyfrif ar eich llyfr sieciau, llyfr banc neu gyfriflen.
- Os yw eich cyfrif gyda chymdeithas adeiladu, neu gyn gymdeithas adeiladu, efallai y bydd angen i chi roi manylion eich rhif rhôl neu eich cyfeirnod ym mlwch 6.8. Bydd y rhif rhôl neu'r cyfeirnod ar eich llyfr neu gyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu. Mae angen i chi hefyd roi manylion rhif y cyfrif a'r cod didoli ym mlychau 6.6 a 6.7. Gweler y Nodiadau, tudalen 18.
- Os oes gennych gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post® cyfeiriwch at eich 'Llythyr Croeso' neu'ch cyfriflen i gael manylion rhif eich cyfrif a'ch cod didoli. Gadewch flwch 6.8 yn wag ac ysgrifennwch 'SWYDDFA'R POST' ym mlwch 6.9.
- Os nad oes gennych gyfrif neu os hoffech agor cyfrif newydd ar gyfer credydau treth, gweler y Nodiadau, tudalen 18.

**CHI – MANYLION CYFRIF**

6.5 **Enw(au) deiliad/deiliaid y cyfrif**. Gweler y Nodiadau, tudalen 18

6.6 **Rhif y cyfrif**

6.7 **Cod didoli** – –

6.8 **Os ydych wedi rhoi manylion cyfrif cymdeithas adeiladu, nodwch y rhif rhôl neu'r cyfeirnod, os oes un.** Nodwch unrhyw gysylltnodau neu slaesau a ddangosir fel rhan o'r rhif. Er enghraifft, 1756 – 789808746 neu 475869607/8797. Rhowch y cysylltnod neu'r slaes yn ei flwch ei hun.

6.9 **Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu** Ar gyfer cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®, nodwch SWYDDFA'R POST

**EICH PARTNER – MANYLION CYFRIF**

5 **Enw(au) deiliad/deiliaid y cyfrif**. Gweler y Nodiadau, tudalen 18

6.6 Rhif [illegible]

6.7 **Cod didoli** – –

6.8 **Os ydych wedi rhoi manylion cyfrif cymdeithas adeiladu, nodwch y rhif rhôl neu'r cyfeirnod, os oes un.** Nodwch unrhyw gysylltnodau neu slaesau a ddangosir fel rhan o'r rhif. Er enghraifft, 1756 – 789808746 neu 475869607/8797. Rhowch y cysylltnod neu'r slaes yn ei flwch ei hun.

6.9 **Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu** [illegible]cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post®, nodwch SWYDDFA'R POST

Os nad oes gennych gyfrif, bydd angen i chi agor un. Os na allwch agor neu ddefnyddio unrhyw fath o gyfrif, ffoniwch ein Llinell Gymorth.

**6.7 Cod didoli'r banc**
Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi'r cod didoli a ddangosir ar eich cerdyn neu gyfriflenni gan eich banc neu gymdeithas adeiladu.

**6.8 Rhif rhôl neu gyfeirnod**
Os yw eich cyfrif gyda chymdeithas adeiladu, neu fanc a oedd arfer bod yn gymdeithas adeiladu, efallai y bydd yn gennych gyfeirnod ychwanegol. Gelwir y rhif hwn yn:

- rhif rhôl
- cyfeirnod cyfrif, neu
- rhif y cyfrif.

Os nad ydych yn siŵr pa rifau i'w nodi, gofynnwch i'ch banc neu gymdeithas adeiladu.

**Cyplau – nodwch eich manylion chi a manylion eich partner ar wahân yn y blychau a ddarperir.**

## A ydych yn gymwys i gael elfen anabledd Credyd Treth Gwaith?

Os ydych yn bodloni **pob un o'r tri amod canlynol**, gallech fod yn gymwys i gael mwy o Gredyd Treth Gwaith.

***Amod 1***

Rydych fel arfer yn gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos.

***Amod 2***

Mae gennych anabledd sy'n eich rhoi o dan anfantais o ran cael swydd.

Mae'n rhaid i o leiaf un o'r disgrifiadau canlynol fod yn berthnasol i chi.

Efallai y byddwn yn gofyn am enw rhywun sy'n gysylltiedig â gofalu amdanoch, fel therapydd galwedigaethol, nyrs gymunedol neu nyrs ardal neu feddyg a fydd yn gallu cadarnhau sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch.

*Anabledd corfforol*

- Wrth sefyll ni allwch gadw eich cydbwysedd oni bai eich bod yn dal eich gafael ar rywbeth drwy'r amser.
- Ni allwch gerdded yn barhaol am bellter o 100 metr ar hyd tir gwastad heb stopio neu deimlo poen difrifol - hyd yn oed pan fyddwch yn defnyddio eich cymorth cerdded arferol fel ffyn magl, ffrâm gerdded, ffon gerdded, prosthesis neu rywbeth tebyg.
- Ni allwch ddefnyddio y naill law neu'r llall y tu ôl i'ch cefn fel petaech yn gwisgo siaced neu'n rhoi eich crys yn eich trowsus.
- Ni allwch ymestyn y naill fraich neu'r llall o'ch blaen, fel petaech yn ysgwyd llaw â rhywun, heb anhawster.
- Ni allwch godi eich dwylo i fyny at eich pen, fel petaech yn gwisgo het, heb anhawster.
- Gan na allwch ddefnyddio eich dwylo yn iawn, ni allwch godi ceiniog 2.5 centimetr neu lai mewn diamedr, megis darn 10 ceiniog, ag un llaw.
- Rydych yn ei chael hi'n anodd defnyddio eich dwylo neu eich breichiau i godi jwg un litr lawn, a thywallt diod i mewn i gwpan.
- Ni allwch droi'r naill law neu'r llall 180 gradd i'r ochr.

*Nam ar y golwg*

- Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr - rydych wedi eich cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall ar gofrestr a luniwyd gan awdurdod lleol.
- Os ydych yn byw yn yr Alban - rydych wedi eich ardystio'n ddall neu'n rhannol ddall. Oherwydd hyn, rydych hefyd wedi eich cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall ar gofrestr a gynhelir gan gyngor rhanbarthol neu gyngor ynys, neu ar eu rhan.
- Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon - rydych wedi eich ardystio'n ddall. Oherwydd hyn, rydych hefyd wedi eich cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall ar gofrestr a gynhelir gan y Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, neu ar ei ran.
- Ni allwch ddarllen print 16 pwynt os ydych dros 20 centimetr i ffwrdd, hyd yn oed os ydych yn gwisgo eich sbectol arferol.

Mae hwn yn brint 16 pwynt. A allwch ddarllen hwn pan fyddwch dros 20 centimetr i ffwrdd?

*Nam ar y clyw*

- Ni allwch glywed ffôn yn canu pan fyddwch yn yr un ystafell â'r ffôn, hyd yn oed os ydych yn defnyddio eich cymorth clyw arferol.
- Rydych yn cael anhawster clywed rhywun yn siarad dau fetr i ffwrdd, hyd yn oed pan fydd yn siarad yn uchel mewn ystafell dawel ac rydych yn defnyddio eich cymorth clyw arferol.

*Anableddau eraill*

- Mae pobl sy'n eich adnabod yn dda yn cael trafferth deall yr hyn rydych yn ei ddweud.
- Pan fydd person rydych yn ei adnabod yn dda yn siarad â chi, rydych yn cael trafferth deall yr hyn y mae'r person hwnnw yn ei ddweud.
- O leiaf unwaith y flwyddyn, yn ystod y dydd, rydych mewn coma neu'n cael ffit pan fyddwch yn anymwybodol.
- Mae gennych salwch meddwl rydych yn cael triniaeth reolaidd ar ei gyfer o dan oruchwyliaeth gweithiwr meddygol cymwys.
- Rydych yn teimlo'n ddryslyd neu byddwch yn anghofio pethau yn aml, oherwydd anabledd meddyliol.
- Ni allwch wneud y symiau adio a thynnu mwyaf syml.
- Oherwydd anabledd meddyliol rydych yn bwrw pobl, yn achosi niwed i eiddo neu'n methu â datblygu perthynas gymdeithasol arferol.
- Ni allwch fel arfer weithio am 8 awr y dydd nac am bum diwrnod yr wythnos oherwydd cyflwr meddygol neu boen difrifol ysbeidiol neu barhaol.
- Rydych ar gyfnod sefydlu neu adferiad o ganlyniad i salwch neu ddamwain. Nid yw hyn yn berthnasol i chi os ydych wedi cael elfen anabledd Credyd Treth Gwaith yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

***Amod 3***

Rydych yn cael budd-dal cymwys sy'n gysylltiedig â salwch neu anabledd neu wedi'i gael yn ddiweddar.

Byddwch yn bodloni'r amod hwn os yw o leiaf un o'r pedwar disgrifiad canlynol yn gymwys i chi, neu:

- os oeddech yn gymwys i gael elfen anabledd Credyd Treth Gwaith yn yr wyth wythnos diwethaf, ac rydych yn gwneud cais arall nawr
- os gwnaethoch fodloni disgrifiad 2 neu 3, neu ddisgrifiad 4 ar dudalen 21 yn eich cais cynharach.

**1**. Rydych yn cael **un** o'r budd-daliadau canlynol ar hyn o bryd:

- Lwfans Byw i'r Anabl
- Lwfans Gweini
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, gyda Lwfans Gweini Cyson ar eich cyfer chi
- Pensiwn Anabledd Rhyfel, gyda Lwfans Gweini Cyson neu Dâl Symudedd Atodol ar eich cyfer chi
- Cerbyd a ddarperir o dan y Cynllun Cerbydau i'r Anabl.

**2**. Am o leiaf un diwrnod yn y chwe mis diwethaf, rydych wedi cael **un** o'r canlynol:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth lle rydych wedi cael y lwfans hwn am 28 wythnos neu fwy neu Dâl Salwch Statudol wedi'i ddilyn gan y Lwfans am gyfnod cyfunol o 28 wythnos neu fwy (gweler **Nodyn 1**)
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfernir ar sail gallu gyfyngedig i weithio o ganlyniad i ddisbyddu 12 mis o hawliad i'r Lwfans Cyflog a Chymorth ar sail cyfraniadau
- Budd-dal Analluogrwydd ar y gyfradd uwch fyrdymor neu'r gyfradd hirdymor
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr ar eich cyfer chi
- Cymhorthdal Incwm, gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr ar eich cyfer chi
- Budd-dal Treth Gyngor, gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr ar eich cyfer chi
- Budd-dal Tai, gyda Phremiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr ar eich cyfer chi.

**Nodyn 1**: Nid oes rhaid i'r 28 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch adio at ei gilydd:

- unrhyw gyfnodau lle y cawsoch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ar yr amod nad oedd mwy na 12 wythnos rhyngddynt
- unrhyw gyfnodau lle y cawsoch Dâl Salwch Statudol, ar yr amod nad oedd mwy nag wyth wythnos rhyngddynt
- unrhyw gyfnodau lle y cawsoch Dâl Salwch Statudol ynghyd â chyfnodau lle y cawsoch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ar yr amod nad oedd mwy na 12 wythnos rhyngddynt.

**3**. Rydych wedi bod yn 'hyfforddi ar gyfer gwaith' am o leiaf un diwrnod yn ystod yr wyth wythnos diwethaf.

Mae 'hyfforddi ar gyfer gwaith' yn golygu mynychu hyfforddiant sy'n cael ei redeg gan y llywodraeth, er enghraifft, hyfforddiant a ddarperir gan y Fargen Newydd, Dysgu wedi'i Seilio yn y Gwaith i Oedolion (Training for Work yn yr Alban) neu gwrs roeddech yn ei fynychu am 16 awr neu fwy yr wythnos er mwyn dysgu sgil ar gyfer swydd neu alwedigaeth.

Yn yr wyth wythnos cyn i chi ddechrau hyfforddi ar gyfer gwaith mae'n rhaid eich bod wedi bod yn cael:

- Budd-dal Analluogrwydd a delir ar y gyfradd uwch fyrdymor neu'r gyfradd hirdymor, neu
- Lwfans Anabledd Difrifol, neu
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn seiliedig ar gyfraniadau am 28 wythnos neu fwy, neu
- Tâl Salwch Statudol (SSP) wedi'i ddilyn gan ESA yn seiliedig ar gyfraniadau am gyfnod cyfunol o 28 wythnos neu fwy (gweler **Nodyn 2**)
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfernir ar sail gallu gyfyngedig i weithio o ganlyniad i ddisbyddu 12 mis o hawliad i'r Lwfans Cyflog a Chymorth ar sail cyfraniadau.

**Nodyn 2:** Nid oes rhaid i'r 28 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch adio at ei gilydd:

- unrhyw gyfnodau lle y cawsoch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau, ar yr amod nad oedd mwy na 12 wythnos rhyngddynt
- unrhyw gyfnodau lle y cawsoch Dâl Salwch Statudol, ar yr amod nad oedd mwy nag wyth wythnos rhyngddynt
- unrhyw gyfnodau lle y cawsoch Dâl Salwch Statudol ynghyd â chyfnodau lle y cawsoch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau, ar yr amod nad oedd mwy na 12 wythnos rhyngddynt a gwnaethoch fodloni'r amodau cyfrannu ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau ar y diwrnodau y cawsoch Dâl Salwch Statudol.

**4**. Mae pob un o'r pedwar pwynt canlynol yn berthnasol i chi.

- Rydych wedi bod yn cael o leiaf **un** o'r budd-daliadau ym mlwch **A** neu **B** am 20 wythnos neu fwy (gweler **Nodyn 3**), ac wedi cael y budd-dal hwn o fewn yr wyth wythnos diwethaf
- Mae eich anabledd yn debygol o bara am o leiaf chwe mis neu weddill eich oes.
- Mae eich enillion gros (cyn didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol) o leiaf 20% yn llai nag yr oeddent cyn i chi gael yr anabledd.
- Mae eich enillion gros (cyn didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol) o leiaf £15 yr wythnos yn llai nag yr oeddent cyn i chi gael yr anabledd.

**A**

- Tâl Salwch Statudol
- Tâl Salwch Galwedigaethol
- Budd-dal Analluogrwydd a delir ar y gyfradd is fyrdymor
- Cymhorthdal Incwm a delir ar sail analluogrwydd i weithio
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfernir ar sail analluogrwydd i weithio

**B**

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfernir ar sail gallu cyfyngedig i weithio

**Nodyn 3**: Nid oes rhaid i'r 20 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch adio at ei gilydd:

- unrhyw gyfnodau ar wahân lle y cawsoch y budd-daliadau a'r credydau ym mlwch **A**, ar yr amod nad oedd mwy nag wyth wythnos rhyngddynt
- unrhyw gyfnodau ar wahân lle y cawsoch y budd-daliadau a'r credydau ym mlwch **B**, ar yr amod nad oedd mwy nag 12 wythnos rhyngddynt.

## Help

Os oes angen unrhyw help arnoch, ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch ein Llinell Gymorth Cymraeg. Ffôn **0300 200 1900**

Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5.00pm.

Gwasanaeth Saesneg **0845 300 3900**

Ffôn testun **0845 300 3909**.

I weld oriau agor y gwasanaeth Saesneg ewch i **www.hmrc.gov.uk/contactus**

***Penodai credydau treth***

Rydych yn benodai os ydych wedi eich penodi i weithredu gan un neu fwy o'r canlynol:

- llys barn
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Adran Datblygiad Cymdeithasol
- ni, pan rydych wedi gwneud cais blaenorol ar rhan y person neu bobl sy'n hawlio.

Nodwch y diwrnod y cawsoch eich penodi a phwy a'ch penododd.

Os ydych yn gweithredu fel penodai am y tro cyntaf, esboniwch pam fod y person sy'n gwneud y cais yn methu â chwblhau a llofnodi'r ffurflen. Byddwn wedyn yn ystyried p'un a ddylid eich penodi ai peidio. Cyn i ni benderfynu, efallai bydd yn rhaid i ni gysylltu â chi am fwy o wybodaeth.

Nid ydych yn benodai os ydych yn helpu rhywun i gwblhau'r ffurflen yn unig ac maent yn deall beth yr ydych yn ei wneud. Er enghraifft, efallai y byddwch yn helpu rhywun i gwblhau'r ffurflen oherwydd eich bod:

- yn gweithio i sefydliad hawliau lles megis Cyngor ar Bopeth
- yn eu helpu fel ffrind, neu
- yn cyfieithu'r cwestiynau i iaith arall iddynt gan nad ydynt yn siarad nac yn deall llawer o Gymraeg na Saesneg.

Os yw'r person sy'n hawlio yn deall y Datganiad ac yn medru ei lofnodi yna dylen nhw wneud hynny.

***Eich hawliau a'ch ymrwymiadau***

Mae *Eich Siarter* yn esbonio'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn y gallwn ni ei ddisgwyl gennych chi. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/eichsiarter.pdf**

***Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth***

Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn Rheolydd Data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a bennir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu treth a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y rhown ni wybodaeth iddynt hwy. Os gwnawn hynny bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei chaniatáu yn unig, er mwyn:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus.

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch chi â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i CThEM oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk** a defnyddiwch y cyfleuster chwilio i ddod o hyd i'r adran *Data Protection Act*.

Canllawiau yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.

Tîm Gwybodaeth i Gwsmeriaid
Ebrill 2012 © Hawlfraint y Goron 2012

CThEM 03/12 L23487

Cyllid & Tollau EM